www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 516
Hydref
2023

## Croeso

Croeso i ddarllenwyr yr Eco yn ôl atom i rifyn yr hydref.
Croeso i'r plant lleiaf sy'n dechrau mynd i'r Cylch neu'r Dosbarth Meithrin yn yr ysgol gynradd.
Croeso mawr i blant Blwyddyn 7 yn dechrau yn yr ysgol uwchradd a phob dymuniad da i'n pobl ifanc ni sy'n troedio llwybrau newydd - prentisiaeth, swydd newydd, cwrs coleg neu brifysgol, tymor newydd cyffrous i bob un ohonoch.

Newid byd ym myd natur hefyd, yr aeron yn drwch hyd y coed a'r llwyni, dail yn troi lliw neu'n crino ac yn disgyn i'r llawr a'r dydd yn byrhau. Gwnewch yn fawr o'r hydref mae'r gaeaf ar ein gwarthaf.



## Elin Enfys



**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

## 1,000fed rhifyn Gronyn

Roedd diwedd Awst yn arbennig i un o aelodau Panel Golygyddol *Eco'r Wyddfa.* Nid yn unig yr oedd y Parchg John Pritchard yn ymddeol o'i waith fel Gweinidog Gofalaeth Fro'r Llechen Las; yr oedd hefyd yn cyhoeddi milfed rhifyn *Gronyn*, taflen wythnosol yr Ofalaeth. Ac oherwydd yr ymddeoliad, dyna hefyd rifyn olaf Gronyn. Cewch rywfaint o hanes Gronyn ganddo ardudalen 15 y rhifyn hwn.







16



5

## Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa ar **Nos Iau, 5ed o Hydref** am 7.00PM yn y Sefydliad Coffa, Llanrug. Croeso cynnes i bawb.

## Yn y rhifyn hwn:


- Y Bom - tud 18
- Coffad - Gareth Fon Jones a Richard Ian Oliver - tud 22 a 23
- Dal i Redeg - tud 31
- Clybiau Cymru yn Ewrop - tud 32

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Y swydd uchod yn wag. Croeso i unrhyw un gysylltu efo'r Cadeirydd os fyddech efo diddordeb yn y swydd.v

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£50 Er cof am Menna Williams Minffordd (Menna Pensarn) oddi wrth y teulu.

£20 Er cof am Alwyn Morris, Merddyn, Ceunant.

Gyfeillion,
Bydd tymor newydd Cymdeithas Wyddonol Gwynedd yn cychwyn ym Mangor gyda golwg ar beth sy'n digwydd ym MSparc (Parc Gwyddoniaeth Môn).

Teitl cyflwyniad Pryderi ap Rhisiart (y cyfarwyddwr) ac Emily Roberts fydd "Tanio uchelgais ac arloesedd yng Nghymru". Cynhelir y cyfarfod am **7.30PM Nos Lun Hydref 9fed yn Ystafell 1.07 Canolfan Bedwyr (Neuadd Dyfrdwy), Ffordd y Coleg, Bangor LL57 2DG.**

Tâl aelodaeth blwyddyn y Gymdeithas yw £10 (myfyrwyr am ddim), ond mae croeso i bawb profi cyfarfodydd unigol am ddim.

Deri Tomos (Ysgrifennydd)

Annwyl Banel Golygyddol,
Bydd Dewi Llwyd yn cyflwyno rhaglenni ar BBC Radio Cymru i nodi 20 mlynedd eleni ers diwedd y streic yn ffatri Friction Dynamics.

Rydym yn chwilio am brofiadau rhai oedd yn gweithio yn y ffatri yn ogystal â straeon rhai gafodd eu heffeithio gan y streic. Os oes gennych chi atgofion o'r cyfnod byddwn yn gwerthfawrogi clywed gennych chi.

Cysylltwch â Marian ar 07780 664668 neu marian@sylw.cymru

Diolch ymlaen llaw,
Marian Tomos

# Cystadleuaeth i ddylunio cerdyn Nadolig UAC



Mae disgyblion ysgolion cynradd o bob rhan o Gymru yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddylunio cerdyn Nadolig ar y thema ffermio ar gyfer cystadleuaeth cardiau Nadolig Undeb Amaethwyr Cymru (UAC).

Mae UAC yn gofyn i blant rhwng 4 ac 11 oed i ddylunio golygfa amaethyddol Nadoligaidd ar gyfer eu cardiau Nadolig, a fydd yn cael eu gwerthu i godi arian ar gyfer elusen yr Undeb sef Ambiwlans Awyr Cymru.

Dywedodd Llywydd UAC, Ian Rickman: "Caiff y gystadleuaeth ei rannu'n ddau gategori - yr ymgeiswyr Cymraeg a'r ymgeiswyr Saesneg. Gall y plant ddefnyddio unrhyw gyfrwng i greu eu cardiau, megis creonau, pensiliau lliw, pinnau ffelt neu baent i dynnu'r llun, ac mae'n rhaid defnyddio dalen A4 o bapur a'i e-bostio atom ar ffurf jpeg".

Yr unig amod yw bod yn rhaid iddo fod yn gerdyn Nadolig sy'n dangos golygfa amaethyddol. Mae'r gystadleuaeth wedi bod yn llwyddiant mawr yn y gorffennol a gobeithio y gallwn sicrhau cefnogaeth ein hysgolion cynradd ar draws Cymru unwaith eto.

Bydd enillydd pob categori yn derbyn tocyn anrheg gwerth £30 i'w hunain, pecyn o'r cardiau Nadolig yn dangos eu dyluniad, mynediad un diwrnod am ddim i Ffair Aeaf Brenhinol Cymru 2023 er mwyn derbyn eu gwobrau a siec gwerth £50 ar gyfer eu hysgol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 27ain Hydref, 2023. Mae angen i bob cynnig gynnwys enw, oedran, rhif dosbarth, enw'r ysgol a chyfeiriad cartref y disgybl a'i e-bostio at ytir@fuw.org.uk

# Dyddiadau i'w cofio…

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Tachwedd | 13 Hydref | 27 Hydref |
| Rhagfyr | 10 Tachwedd | 24 Tachwedd |
| Ionawr | 1 Rhagfyr (sylwer ei fod yn gynt) | 15 Rhagfyr (sylwer ei fod yn gynt) |

# Clwb Eryri yn newid y drefn

Sefydlwyd Clwb Eryri ym 1955, gyda'r cyfarfod cyntaf ar nos Wener, Hydref 14eg y flwyddyn honno.

Bu'r aelodau'n cyfarfod yng Ngwesty'r Fictoria bob mis rhwng Hydref a Chwefror, gyda chinio Gŵyl Ddewi ar ddiwedd y tymor. Roedd pob aelod yn ei dro'n cyfrannu at y gweithgareddau drwy roi cyflwyniad (ar unrhyw bwnc o'i ddewis) ar y noson. Dilynwyd y ddarlith gan baned a thrafodaeth o'r llawr.

Clwb i ddynion yn unig ydoedd, a chlwb caeedig gydag enw darpar aelod newydd yn cael ei gynnig a'i dderbyn gan y Clwb.

Ond mae'r oes wedi newid dipyn mewn 68 mlynedd. Bu ambell sylw ar y ffaith nad oedd merched yn cael mynychu. Ac roedd rhai a ymunodd â'r Clwb yn teimlo braidd yn nerfus neu'n ansicr am roi sgwrs eu hunain. Bu'r pandemig efallai'n ergyd hefyd, fel y bu i lawer sefydliad cymdeithasol yn yr ardal. Mae'r Clwb wedi ail afael yn ei weithgareddau ond yn gweld bod angen newid efo'r oes.

Bwriedir felly i newid y drefn. Bydd cyfarfod cyntaf Clwb Eryri am dymor 2023–2024 nos Wener, Hydref 6ed, yn Y Ganolfan, Llanberis am 7.00PM. Y siaradwr fydd Dr Huw Roberts, Caernarfon. Estynnir croeso i oedolion, yn cynnwys merched wrth gwrs, i fynychu er mwyn mwynhau a gwrando ar ei gyflwyniad a chymryd rhan yn y sgwrs dros baned.

Mae tâl aelodaeth am y flwyddyn yn £10. Gan ein bod yn mentro gyda threfn wahanol, bydd croeso i unrhyw un dalu £3 y noson yn hytrach nag ymuno'n ffurfiol. Mae'r arian yn talu am ein paned ac unrhyw gostau ychwanegol.

Yn ystod ein tymor diweddaraf, cafwyd nosweithiau'n trafod y canlynol.:

Ysbrydion yr ardal.

Hanes Trwyn Eilian, Môn a'r peilotiaid oedd yn tywys llongau heibio'r ynys at borthladd Lerpwl, a'r "telegraff" cyntaf oedd yn gyrru negeseuon rhwng Môn a Lerpwl "yn gynt na'r gwynt".

Clustnodau defaid dros y canrifoedd a'u dylanwad hyd heddiw.

Frank Green yn rhoi noson fythgofiadwy'n hanner adrodd, hanner canu hanes ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth i'w gyfeiliant ei hunan ar yr ukelele, banjo a gitâr.

Hanes T. Rowland Hughes - ei fywyd a'i waith.

Mae rhaglen y tymor newydd wrthi'n cael ei pharatoi. Bydd aelodau'n cyflwyno ar dair noson yn y tymor, a siaradwyr gwadd ar ddwy noson. I raddau, efallai, bydd union drefniadau'r cyfarfodydd yn newid yn ystod y tymor wedi gweld yr ymateb. Estynnir croeso cynnes i bobl cylch yr *Eco* i ymuno â ni.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Robin Parry ar: *robinpar@btinternet.com*

Mae croeso i chi hefyd yrru neges os ydych yn bwriadu mynychu er mwyn i ni gael syniad o'r niferoedd.

## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Tân**. Mae i 'dân gwyllt' ystyr wahanol bellach, gyda nifer ohonynt yn llosgi coedwigoedd, glaswelltiroedd a hyd yn oed drefi cyfan yn Hawaii, California, British Columbia, Gwlad Groeg ac Ynysoedd y Canary.
- **Beibl**. Gorchudd Beibl o oes Elisabeth I wedi ei wnïo'n gain yn cael ei werthu am £120,000. Roedd yn dangos amrywiaeth o flodau, yn cynnwys rhosod a llygad y dydd yn ogystal â ffrwythau. Roedd y gorchudd, yn wahanol i'r mwyafrif o ddefnyddiau, wedi cadw'r lliwiau gwreiddiol, a heb bylu o gwbl.
- **Pêl-droed**. Nid pêl-droed yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd yng Nghymru i gadw oedolion hŷn yn heini, ond yn Japan mae cynghreiriau pêl-droed i rai dros 80 oed yn boblogaidd iawn, gyda gemau yn parhau am hanner awr.
- **Hunanladdiad**. Yn yr UDA roedd bron i 50,000 o bobl wedi cyflawni hunanladdiad y llynedd; y cyfanswm uchaf erioed. Honnir mai'r ffaith ei bod mor hawdd prynu gwn yno yw'r rheswm dros hyn.
- **Twrch daear.** Mae gwyddonwyr wedi darganfod dau fath newydd o dwrch daear yng ngwlad Twrci. Defnyddiwyd technoleg DNA i gadarnhau fod y ddau fath yn fiolegol wahanol i bob math arall. Fe'u darganfuwyd ym mynyddoedd dwyreiniol y wlad.
- **Tafarn.** "The Crooked House", tafarn yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif yn cael ei dymchwel yn anghyfreithlon yn dilyn tân dinistriol ac amheus. Fel roedd ei henw'n awgrymu, roedd yr adeilad mor gam fel bod marblis yn rowlio ar hyd y bar. Mae galw lleol am ail-adeiladu'r dafarn – yr un mor gam â'r gwreiddiol!
- **Ceir.** Gwerthiant ceir trydan ail-law wedi cynyddu 82% ers y llynedd.
- **Caffi.** Mae'n ymddangos mai'r ffasiwn ddiweddaraf sy'n lledu ledled y byd yw cyfuno paned (boed goffi neu de) a chath. Mae niferoedd o'r hyn sy'n cael eu galw'n 'Gaffi cathod' wedi agor, ac yn cynnig cwmni cath i bob unigolyn am bris paned.
- **Camelod**. Nid yr anifail prydferthaf ar wyneb y ddaear, ond mae tymor y pasiantau wedi cychwyn yn y gwledydd Arabaidd, a hynny'n golygu cystadlaethau'r camelod prydferthaf! Y llynedd, mewn pasiant yn parhau am 40 niwrnod daeth 30,000 o gamelod i gystadlu am y teitl. Gall yr enillydd (neu'n hytrach, ei berchennog) hawlio miloedd o bunnoedd. Yn 2020 talwyd £2 miliwn am un camel benywaidd a enillodd y teitl 'y camel prydferthaf'.
- **Tedi.** Gwraig o Gwmbrân yn talu £130 am dedi o wneuthuriad Almaenig mewn sêl cist car. Yn ddiweddarach, fe'i gwerthodd mewn ocsiwn am £3,800.
- **Macaw.** Yr aderyn, o'r enw Blu yn hedfan i ganol gêm bêl-droed ar Ynysoedd yr Orkney a chreu anrhefn. Roedd tîm Stormness yn colli o bedair gôl i ddim ar y pryd, ond wedi dal Blu ac ail-gychwyn y gêm yn erbyn Hotspur daeth adfywiad, a Stormness orffennodd yn fuddugol o 5 gôl i 4. Cymaint oedd dylanwad yr aderyn ar y gêm fel bo'r tîm yn cysidro 'mabwysiadu' Blu fel mascot.
- **Cwrw**. Mae trefnwyr Gŵyl Gwrw Peterborough yn hawlio record Brydeinig am y bar hwyaf – 115 llathen o hyd. Bydd cwrw o 150 gwahanol fragdai yn cael ei werthu arno. Roedd y record – bar 71 llathen o hyd – yn eiddo i glwb pêl-droed Tottenham Hotspur.
- **Pengwin.** Mae dau bengwin Humboldt a anwyd yn Sŵ Caer wedi eu henwi yn Rob a Ryan ar ôl perchnogion Americanaidd Clwb Pêl-droed Wrecsam. Yn ôl y sôn mae cefnogwyr tîm pêl-droed Caer – prif elynion Wrecsam – yn gandryll.
- **Wyau pryfed**. Yn Nepal mae merched wedi sefydlu fferm bryfed sy'n cadw un math arbennig o bryf, sef pryfyn y milwr du. Mae'r pryfed yn cael eu bwydo â gellyg a sbarion llysiau, a'r wyau'n cael eu gwasgu'n ofalus allan ohonynt i diwbiau plastig. Mae'r wyau'n llawn protin, ac ar ôl eu sychu maent yn cael eu gwerthu fel bwyd ieir.
- **Lleuad**. Chandrayaan-3; llong ofod wedi ei lansio o'r India yn glanio ym mhegwn deheuol y lleuad. Anodd deall sut mae gwlad sy'n derbyn nawdd tramor oherwydd tlodi yn gallu fforddio'r fath fenter.
- **Rhewlif**. Yn ôl arbenigwyr, mae gwanwyn a haf cynnes, gan gynnwys ton eithafol o wres uchel yn golygu fod mwy o rewlifau'r Swistir yn dadmer. Gallai hon fod yr ail flwyddyn waethaf o ran colli rhewlifau os na cheir cyfnod o dywydd oer yn fuan.
- **Addysg**. Mae Lalringthara Fanai yn cerdded 3 cilometr i'r ysgol bob dydd. Does dim yn anghyffredin am hynny, nes cysidro fod y gŵr hwn yn 78 mlwydd oed, ac wedi penderfynu cwblhau ei addysg ar ôl gadael yr ysgol yn 7 oed oherwydd tlodi'r teulu. Mae'n byw yng ngogledd-ddwyrain India, ac wedi ail-afael yn ei addysg i ddysgu darllen Saesneg er mwyn dal fyny â newyddion y byd. Mae'n dilyn cwrs addysg ar gyfer rhai 13 a 14 oed, ond hefyd yn cynorthwyo'r athrawon i ddysgu'r iaith frodorol, Mizo.
- **Totem**. Wedi canrif yn yr Alban mae polyn totem o Ganada yn cael ei ddychwelyd i dalaith British Columbia ble mae llwyth brodorol y Nisga'a yn byw. Fe'i 'gwerthwyd' heb ganiatâd dros ganrif yn ôl, ond bydd bellach yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Cenedl y Nisga'a.
- **Caws**. Mae'r cosyn drytaf yn y byd wedi ei werthu am £26,000. Mae 1 cilogram o gaws glas cabrales fel arfer yn gwerthu am tua £35. Mae'r caws yn cael ei gynhyrchu gan ffermwyr ym mynyddoedd Picos yn Sbaen, ac yn aeddfedu mewn ogofâu. Aeth pris y cosyn arbennig hwn i'r fath entrychion oherwydd iddo ennill cystadleuaeth 'cabrales y flwyddyn'.
- **Baijiu**. Mae dau gwmni yn Tsieina wedi dechrau cynhyrchu coffi yn cynnwys baijiu, sef alcohol cryf. Mae'n hynod boblogaidd gyda phobl ifanc, ond mae yfed un baned yn golygu ei bod yn rhy beryglus i unrhyw un yrru car wedyn.

**Diolch**
Diolch yn fawr iawn i aelodau eglwysi Ebeneser a Chefnywaun a gweddill Gofalaeth Fro'r Llechen Las, ynghyd ag aelodau Eglwys Crist, Llandinoriwg am eu dymuniadau da a'u rhoddion caredig ar achlysur f'ymddeoliad ddiwedd Awst. Mae wedi bod yn fraint i mi wasanaethu'r ddwy eglwys yn Neiniolen (ynghyd ag eglwys Disgwylfa am gyfnod byr cyn ei huno ag eglwys Cefnywaun) ers i mi ddod atoch yn weinidog ddechrau Hydref 1988. Gwelsom lawer o newidiadau dros y 35 mlynedd ers hynny, yn cynnwys cau'r tri chapel (ynghyd â Chapel Dinorwig pan ymunodd yr eglwys yno ag eglwys Cefnywaun), ond trwy bob newid parhaodd y cydweithio rhwng yr eglwysi a pharhaodd hefyd yr addoliad yn Nhŷ Elidir y blynyddoedd diwethaf hyn. Diolch o galon am bob cefnogaeth a chydweithrediad, ac yn bennaf oll diolch am eich cymdeithas yn yr Efengyl a'ch cwmni yn yr oedfaon o Sul i Sul. Daw cyfle yn fuan, gobeithio, i'ch gwasanaethu eto mewn ambell oedfa. Pob bendith a dymuniad da i'r eglwysi i'r dyfodol dan arweiniad Duw. – John Pritchard

**Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen**
Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau'r pentref am roddion ariannol o'r gronfa uchod. RHAID i bob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn yr archwilydd. Yn ogystal, dylid nodi nifer aelodau'r mudiad neu oddeutu'r nifer fyddai yn elwa o rodd ariannol yn ogystal â nodi os ydyw ar gyfer gweithgaredd neu ar gyfer prynu unrhyw eitem benodol. Dylid anfon ceisiadau i'r ysgrifennydd, Glyn Gruffudd, 3 Hafod, Clwt y Bont, LL55 3DG. Dyddiad cau yw Hydref 31 2023.

**Newyddion Cynghorydd Deiniolen**
Diolch i'r Cyngor am dorri gwair yn y Fynwent yn ddiweddar a hefyd am lanhau'r draeniau yn y pentref. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Cyngor am dorri gwair yn Bro Deiniol yn ddiweddar.

**Oedfaon Ebeneser a Chefnywaun (yn Nhŷ Elidir)**
**Sylwch ar yr amseroedd os gwelwch yn dda.**
Hydref 1af - Parch Olaf Davies, Ynys Mon am 3.30pm
Hydref 8fed - Y Parchg R.O. Jones, Gaerwen am 5.00pm
Hydref 15fed - Mr. John Roberts, Llanfair P.G. am 3.30pm
Hydref 22ain - Y Parchg Huw Pritchard, Llangefni am 5.00pm
Hydref 29ain - Y Parchg Gerallt Lloyd Evans, Môn am 5.00pm





## Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd

Wel am eisteddfod fu hi eleni i bobl Deiniolen! O gystadlu i dderbyn i'r orsedd, cyflwyno ar y teledu, arddangos crefft a diddanu torfeydd, roedd pobl Deiniolen (a Dinorwig) ym mhobman.

Llongyfarchiadau i Fand Pres Deiniolen; i Elsa Gwyn a'i mam Lyndsey Vaughan ar eu llwyddiant ar lwyfan yr eisteddfod. Llongyfarchiadau i Gareth a Glyn am gael eu derbyn i'r orsedd; i Andrew am ei sgiliau arddangos gwaith llechi; i deulu'r Gibsons ac Anette am ddiddanu ac i Trystan am ei waith ardderchog yn cyflwyno ar y teledu. Gwych iawn.










**Cangen Plaid Cymru Deiniolen**
Diolch yn fawr iawn i aelodau Plaid Cymru Deiniolen a fu allan yn ddiweddar yn casglu sbwriel o gwmpas y pentref.



**Siop Symudol**
Mae'r Siop Symudol, sydd wedi bod yn ymweld â Thŷ Elidir ers mis Mehefin, bellach yn darfod ymweld â'r pentref ar y 14eg o Fedi. Diolch i Grŵp Cymunedol Deiniolen am drefnu'r adnodd hwn, mae wedi bod yn hynod ddefnyddiol i'r pentrefwyr.







**Diwrnod Amgylcheddol**
Dyma luniau o'r clirio fu'n digwydd ym Mhentre Helen yn ystod y Diwrnod Amgylcheddol y soniwyd amdano yn rhifyn diwethaf yr Eco.




## CEUNANT

**Diolchiadau**
Dymuna Veronica a theulu'r diweddar Alwyn Morris (Becar), Merddyn, Ceunant ddatgan eu diolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl.
Diolch yn arbennig i'r parchedig Nerys Griffiths am arwain y gwasanaeth ar ddiwrnod yr angladd yng Nghapel y Rhos ac i'r organyddes Mrs Mair Hughes. Diolch hefyd i'r ymgymerwr Mrs Meinir Griffiths o gwmni Dylan Griffiths, Tros y Waun, Penisarwaun am eu cymorth a threfniadau trylwyr ac urddasol. Dymuna'r teulu hefyd ddiolch o galon i Feddygfa Waunfawr am eu caredigrwydd a gofal diddiwedd.


ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 hefsj@aol.com


## DINORWIG

**Diolch**
Diolch yn fawr iawn i aelodau eglwysi Ebeneser a Chefnywaun, Deiniolen a gweddill Gofalaeth Fro'r Llechen Las, ynghyd ag aelodau Eglwys Crist, Llandinoriwg am eu dymuniadau da a'u rhoddion caredig ar achlysur f'ymddeoliad ddiwedd Awst. Mae wedi bod yn fraint i mi wasanaethu'r ddwy eglwys yn Neiniolen (ynghyd ag eglwys Disgwylfa am gyfnod byr cyn ei huno ag eglwys Cefnywaun) ers i mi ddod atoch yn weinidog ddechrau Hydref 1988. Cefais y fraint hefyd o weinidogaethu i aelodau o Gapel Dinorwig a ddaeth atom i Gefnywaun wedi cau Capel Dinorwig ac uno'r ddwy eglwys ym 1990. Gwelsom lawer o newidiadau dros y 35 mlynedd diwethaf, yn cynnwys cau nid yn unig gapeli Disgwylfa, Dinorwig, Cefnywaun ac Ebeneser ond bob capel arall yn Ninorwig a Deiniolen a chylch ehangach. Ond trwy bob newid parhaodd y cydweithio rhwng yr eglwysi a pharhaodd hefyd yr addoliad yn Nhŷ Elidir y blynyddoedd diwethaf hyn. Diolch o galon am bob cefnogaeth a chydweithrediad, ac yn bennaf oll diolch am eich cymdeithas yn yr Efengyl a'ch cwmni yn yr oedfaon o Sul i Sul. Daw cyfle yn fuan, gobeithio, i'ch gwasanaethu eto mewn ambell oedfa. Pob bendith a dymuniad da i'r eglwysi i'r dyfodol dan arweiniad Duw. – John Pritchard

**Cynhebrwng yr Haf**
'Cynhebrwng yr Haf': dyna'r hyn roedd yr hen drigolion yn galw Ffair Nant. Ac erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Eco* eich cyrraedd bydd Ffair Nant wedi bod, a ninnau yn nhymor yr hydref. Ac er ei bod yn fore heulog, braf wrth ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae rhyw ias hydrefol eisoes i'w deimlo gyda'r nosau. Mae'r coedydd eisoes yn dechrau dangos eu lliwiau hydrefol, ond braf cael dechrau Medi heulog wedi Awst siomedig dros ben.

**Dechrau newydd**
Daeth tymor coleg llawer o ieuenctid y fro i ben, a gorfod mynd allan i chwilio am waith ac ennill bywoliaeth. Dymuniadau da i bawb ohonoch sydd yn y sefyllfa honno. Daeth tymor yr arholiadau i ben yn yr ysgol uwchradd hefyd, a'r rhai ifanc yn dechrau ar gyfnod newydd mewn coleg neu mewn gwaith. Mae eraill yn cychwyn o'r newydd yn yr ysgol uwchradd, a'r rhai ieuengaf un yn cymryd y camau cyntaf yn eu hysgolion cynradd. Gobeithio na fu gormod o wylo – gan y plant na'r mamau!

**Yr Eisteddfod**
Ni fu'n bosib i mi ymweld ag Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd ym Moduan eleni, ond bûm yn ei dilyn yn ddyddiol ar y teledu a'r radio, a mwynhau bob munud. Roedd yn Eisteddfod lwyddiannus iawn, a daeth rhai gwobrau i'r fro. Ein llongyfarchion i Lois Eifion am arwain Seindorf Deiniolen i'r brig yng nghystadleuaeth y bandiau pres.

**Gofalaeth Fro'r Llechen Las**
Yn y rhifyn diwethaf roeddwn yn gobeithio y gallwn roi adroddiad mwy cadarnhaol y mis hwn, gan y byddai colli'r Ofalaeth yn ergyd drom i sawl capel. Rhaid cydnabod fodd bynnag mai eglwys ddi-fugail ydym bellach wedi ymddeoliad y Parchg John Pritchard. Wedi cyfnod o seibiant dros Awst, cynhaliwyd ein hoedfa gyntaf ar y Sul cyntaf ym Medi, ond prin fod llond llaw yn bresennol, a hynny wedi'r penderfyniad ddeufis ynghynt ein bod am barhau. Gyda chyn lleied yn mynychu'r gwasanaeth yn Neiniolen, mae'n anodd iawn i'r swyddogion geisio cael pregethwyr i lenwi cyhoeddiad. Yr ofn mawr yw mai cau bydd hanes yr achos yn Neiniolen. Apêl sydd yma felly ar i'r aelodau oll ein cefnogi dros y mis i ddod.

Gobeithio'n wir nad ymddeoliad y Parchg John Pritchard fydd dechrau'r diwedd i ni. Bu'n weinidog bro am bron i ddeugain mlynedd. Dechreuodd ei weinidogaeth yn ardal Abersoch cyn dychwelyd i'w bentref genedigol yn Llanberis a gwasanaethu Gofalaeth Unedig Deiniolen, Llanberis a Nant Peris (a drodd yn ddiweddarach yn Ofalaeth Fro'r Llechen Las i gynnwys eglwysi yn Nhalybont a Llanllechid). Y mae ein diolch a'n dyled yn fawr iddo am ei wasanaeth, ei gyfeillgarwch a'i gymwynasau i ni dros yr holl flynyddoedd.

**Damweiniau**
Ein cofion at Mrs Hannah Roberts, Tŷ'r Ysgol, sydd wedi disgyn ac anafu pen ei hysgwydd: poenus iawn!

Disgyn ar y grisiau o flaen y tŷ fu hanes Cefin, 2 Bro Elidir hefyd, a bu'n rhaid treulio amser yn yr ysbyty.

Does ond dymuno gwellhad buan i'r ddau ohonoch. Ein cofion hefyd at bawb sydd wedi dioddef o anhwylderau yn ddiweddar.

## Clwb Bro Bethel

Ar bnawn Mawrth cyntaf mis Medi hynod o braf, daeth nifer fawr o aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor newydd. Cafwyd gair o groeso gan ein Llywydd, Mary Wyn



Jones. Llongyfarchwyd Norah Wyn Parry ar ddathliad pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Anfonwyd cofion at Mary Evans sydd heb fod yn dda'n ddiweddar.

Penderfynwyd fod angen ethol Is-lywydd i'r Clwb, a chytunodd Llinos Williams i ymgymryd â'r ddyletswydd.

Ein gŵr gwadd oedd Neville Hughes, Bethesda sy'n adnabyddus fel cyn-aelod o Hogiau Llandegai. Deilliodd y grŵp o Grŵp Sgiffl a ffurfiwyd ym 1957. Defnyddiwyd offerynnau megis pren golchi, cist dê a choes brwsh i greu'r gerddoriaeth.

Ffurfiwyd Hogiau Llandegai ym 1964 ac er iddynt 'ymddeol' ar sawl achlysur, cafodd cynulleidfaoedd eu diddanu ganddynt am 39 o flynyddoedd.

Trwy gyfrwng sgwrs a chân, rhannodd Neville straeon am Hogiau Llandegai. Cyfeiriodd at lais unigryw'r prif leisydd Ron, a doniolwch Now yn dynwared synau anifeiliaid. Cawsom gyd-ganu rhai o'r caneuon gan orffen gyda'r anfarwol 'Defaid William Morgan'.

Diolchwyd i Neville am brynhawn hynod o ddifyr gan y Llywydd. Anne Elis a Norah Parry oedd yn gofalu am y te. Bydd y cyfarfod nesaf yng nghwmni Mair Price, Caernarfon ar Hydref 3ydd am 1.30pm.

**Croeso 'nôl**

Yng ngwres braf ein 'Haf Bach Mihangel' yr ydw i'n llunio'r golofn y mis yma. Wedi haf gwlyb, gobeithio ein bod ar drothwy troi cornel o gynhesrwydd cyfeillgarwch a gweithgaredd bro. Os mai prin yw'r adnoddau busnes – siop, tafarn, swyddfa bost – yn sicr mae gennym adnoddau dynol penigamp yn y pentref i gynnal gweithgaredd. Gwnawn ein gorau i gefnogi gweledigaeth a gweithgaredd y criwiau ffyddlon sy'n rhoi eu hamser i gadw sawl drws ar agor – ac agor drysau newydd. Mae cyfraniad at weithgareddau'n plant a phobl ifanc yn hynod o werthfawr ac yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu'n garfan o 'bobl Bethel' hyderus fydd yn arwain 'llais Bethel' yn y dyfodol. Pentref sy'n dal i ddatblygu yw Bethel, ac erbyn y mis nesaf cawn wybod os bydd datblygiad tai arall wedi ei ganiatáu.

Holwch bob un ohonom am ein gwreiddiau a'n magwraeth Gymreig gynhenid, ac onid oes 'cartref' a chyfraniad gennym i'r lliaws o weithgareddau a drefnir yn y Neuadd, dan adain y Fenter Gymunedol, cymdeithasau Merched y Wawr, Clwb Bro, Clwb Bowlio, yr Eisteddfod, Clybiau Chwaraeon, hyd at ein capeli a'n heglwys. Mae rhywbeth yn derfynol mewn cau drws. Anodd yw ei ail agor. Mae sawl pentref ac ardal a fyddai'n gwirioni gyda'r fath drawstoriad o weithgaredd a chyfle i gymryd rhan. Gobeithio y gwelwch yr *Eco* fel cyfrwng i gynnal y gweithgaredd yma. Yn ei hanfod, record o fywyd dyddiol ein pentrefi a'n hardal yw'r *Eco*. Trwyddo, rydym yn cadw cofnod i'r dyfodol. Eich papur chwi yw'r *Eco*, i'w ddefnyddio er lles y gymuned.

**Llongyfarchiadau**

Bu Norah Parry, Stad Tan y Buarth, yn dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau mis Medi. Mae Nora'n dal yn weithgar gyda sawl gweithgarwch yn y pentref. Dathlwyd gydag aduniad teuluol ar yr aelwyd, a chafwyd dathliad braf.

Llongyfarchiadau hefyd i Richard Lloyd Jones am gipio cadair Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl, Sir Gaerfyrddin. Enillodd gydag awdl ar y testun 'Plethu'. Dyma'r drydedd waith iddo ennill cadair y Tymbl.

**Pob Hwyl**

Pob hwyl i holl ddisgyblion y pentref a fydd yn cychwyn ar eu haddysg gynradd, uwchradd neu goleg y mis hwn.

**Dymuniadau da**

Danfonwn ein cofion cynhesaf at Mary Evans, Bro Eglwys sydd heb fod yn dda'n ddiweddar. Wedi cyfnod yn yr ysbyty mae hi gartref erbyn hyn. Gwelir eisiau cyfraniad Mary mewn sawl man yn y pentref.

**Oedfaon Hydref**

**Bethel:** Hydref 1af, Mr Arwel Roberts; 15fed, Y Parchg Ioan Griffith; 22ain, Mr Edward Morus Jones; 29ain, Y Parchg Huw Pritchard.
**Cysegr:** Hydref 1af, Y Gweinidog; 8fed, Diolchgarwch; 15fed, Undebol ym Methesda; 22ain, Y Gweinidog; 29ain, Mr Dennis Davies.
**Saron:** Hydref 1af, Y Parchg Philip Barnett; 29ain, Dr. Ian Morris.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe byddai rhywun yn f'atgoffa pryd bydd oedfaon yn cael eu cynnal yn Eglwys Llanddeiniolen, fel y gellir eu cynnwys yma'n fisol.

**Eisteddfod Genedlaethol Boduan**

Os oedd angen codi ysbryd y genedl, yna cyflawnwyd hynny ar dir Llŷn eleni. 'Ail dân yn Llŷn', chwedl un sylwebydd. Daeth y torfeydd, a chafwyd cydbwysedd o'r hen Eisteddfod draddodiadol gystadleuol, lwyfannol a'r syniad o Ŵyl yn rhoi llwyfannau i wahanol agweddau o lên, celf a chân. Cafwyd teilyngdod ym mhob un o'r prif gystadlaethau, ac awdl a phryddest i'w sawru. Llongyfarchiadau i Gwen James, Stad Tan y Ffordd, am gipio'r wobr gyntaf dan feirniadaeth Tudur Dylan am gyflwyno tair cerdd i blant.

Fore Gwener yr Eisteddfod, urddwyd Llinos Angharad, merch Lynnwen ac Idwal, Perthi, i Urdd y Wisg Las yn yr Orsedd. Caiff ymuno â'i brawd Carwyn John (cyn-enillydd Gwobr Llwyd o'r Bryn) yn yr Orsedd. Mae Carwyn yn aelod o Bwyllgor Llên sefydlog yr Eisteddfod.

Llongyfarchiadau calonnog i Tomos Gibson, Stad Tan y Buarth ar ei berfformiad arbennig yn y Sioe Gerdd 'Dyma Ni'. Llwyfanwyd y sioe gyntaf yn Galeri yn ystod mis Ebrill eleni. Cymaint oedd llwyddiant y sioe nes cafwyd perfformiad arbennig ar y Sadwrn olaf ym Moduan.

Sioe Gerdd a gomisiynodd Gwasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn ar gyfer pobl ifanc Gwynedd a Môn yw 'Dyma Ni'. Dewiswyd Tomos i chwarae rhan Osian, un o brif gymeriadau'r Sioe. Bu ymarfer brwd dros fisoedd y gaeaf a chafwyd perfformiadau gwych gan y cast, ac roedd y fenter yn llwyddiant ysgubol. Melys moes mwy! Gobeithio y gallwn ddilyn yn y dyfodol yrfa theatrig Tomos.

Cafodd nifer o ieuenctid yr ardal brofiadau gwerthfawr fel aelodau o'r gwahanol gorau ieuenctid a roddodd sawl gwefr o'r gwahanol lwyfannau. Bu eraill yn cystadlu ar gystadlaethau unigol. Gobeithio felly fod Tomos, Beca, Begw, Alaw, Lydia a Sarah wedi elwa o'r profiadau yma.

**Eisteddfod Bethel**

Cafwyd hwyl ar noson braf yn mwynhau helfa drysor a drefnwyd gan Bwyllgor Eisteddfod Bethel, a chwestiynau Anita a Gwenan.

Cyntaf - Tîm dim brên , sef Kelly, Eban, Gwen, Megan, Osian, Jac a Mason

Ail - Tîm MG15, sef Jonathan, Leah, Wil, Oliver ac Anna

Trydydd - Bakhita, sef Tom ,Sasha, Max, Rio a Tomi.

Diolch i bawb gymrodd ran - dyma lun y tîm buddugol.



# Ysgol Bethel

Dyma luniau o ddosbarthiadau newydd Ysgol Bethel. Braf yw croesawu disgyblion hen a newydd yn ôl ar ôl seibiant yr haf. Mae pawb yn edrych ymlaen am flwyddyn arall o addysg llawn anturiaethau.









Cofiwch am yr Eisteddfod ar Hydref 14eg yn y Neuadd Goffa. Mae testunau ar dudalen facebook yr Eisteddfod, yn *Eco'r Wyddfa* ac ar gael yng Nghaffi'r Bedol. Bydd angen i waith y cystadleuwyr yn yr Adran Gelf fod yn y Neuadd erbyn Hydref 11eg.

Fel pob blwyddyn bydd y pwyllgor yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad ariannol tuag at dreuliau'r eisteddfod. Bydd pob cyfraniad yn cael ei gydnabod.

**Ymddeoliad Hapus**

Wedi nifer o flynyddoedd o wasanaeth, mae'r Rhingyll Non Gibson, Stad Tan y Buarth wedi ymddeol o'r Heddlu. Diolch am ei gwasanaeth, a chaiff edrych ymlaen bellach at flynyddoedd o ymlacio, a mwy o 'Helo' na 'Helo! Helo!'.

**Menter Gymundeol Bethel**

Nodais yn aml fod yr *Eco* yn gyfrwng i groniclo hanes bro i'r dyfodol. Yn sicr, bydd dygnwch criw gweithgar Menter Gymunedol Bethel yn haeddu ei gofnodi. Eu canolfan wrth gwrs yw Caffi'r Bedol, i ddefnyddio'r enw swyddogol erbyn hyn. Mae'r ganolfan hon yn brysur ennill ei phlwy', a hynny am yr holl weithgaredd y tu hwnt i ddarpariaeth arferol caffi. Mae eu syniadau wedi eu hanelu at wahanol oedrannau. Bu rhai o'r syniadau'n gaffaeliaid i'r plant yn ystod y nifer o ddyddiau diflas, glawog a gafwyd yn ystod gwyliau'r ysgol. I roi 'blas' ar arlwy gymdeithasol y Caffi, nodaf rai yn unig o weithgareddau'r haf a gyflwynwyd gan griw'r Fenter. Cafodd y plant gan a chacen wrth gwblhau gweithgaredd celf yn y caffi. Bu dyddiau thema i'r plant – o Ddydd y Frenhines (Barbie) i Ddydd yr Archarwyr - a noson Bongo Bingo yn y Neuadd. Diolch i Mei Emrys am lywio cwisus themaol C'mon Midffild. Yna, noson 'Cyswllt yr Ysbrydion' gydag Eifion Williams, Deiniolen. A chaffaeliad i nifer o deuluoedd oedd y stôr o ddillad ysgolion Bethel a Brynrefail oedd ar gael. Mae syniadau da hefyd ar droed ar gyfer diwedd mis Hydref, ond cewch fwy o fanylion yn rhifyn yr *Eco* mis nesaf. Diolch i griw'r Fenter, ac ar eu rhan nhw diolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

**Codi arian at elusen**

Bu Leia a Lydia yn brysur yn peintio cerrig gyda chyfarchion megis 'Helo','Tŷ Ni', a 'Croeso' ac mi wnaethant elw o £15. Bydd yr arian yn cael ei roi at Ward Alaw. Diolch i bawb wnaeth eu cefnogi.

**Adran yr Urdd**

Bydd gweithgareddau'r gangen yn cychwyn yn ôl fis Hydref.

Gallwch ymuno ar wefan Porth yr Urdd. £10 yw pris ymaelodi neu mae Cynigion Teulu ar gael sef £25 i deulu o 3 neu fwy o blant. Yn ogystal, mae cynnig aelodaeth am £1 i rai sy'n derbyn cefnogaeth ariannol.

Cofiwch gysylltu â Menna, yr ysgrifenyddes os oes unrhyw broblem ac unwaith y byddwch wedi ymaelodi, gallwn eich ychwanegu at ein grŵp WhatsApp i gael manylion y gweithgareddau misol fydd ar gael (07789395028).

Gobeithio y cawn ni nifer o aelodau eto eleni ac y bydd yn dymor llwyddiannus fel llynedd.


SIÂN GWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell Caernarfon

sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

# Nosweithiau Gaeafol

Mae'r gaeaf bron ar ein gwarthaf, ond nid dyna pam mae'r testun uchod ar golofn y mis hwn. Gallai'r testun hefyd fod yn 'Nosweithiau yr Hafod' neu'n 'Nosweithau gaeafol yn yr Hafod'. Does gen i ddim syniad pa un o'r tri sy'n gywir. Does gen i chwaith ddim syniad pam fod y nosweithiau gaeafol yn cael eu cysylltu â'r hafod, sy'n draddodiadol yn gysylltiedig a'r haf. Fe fyddai 'Nosweithiau gaeafol yn yr Hendref' yn gwneud mwy o synnwyr. Ond rhag ofn eich syrffedu, gwell egluro. Mae'r tri theitl yn cael eu defnyddio i ddisgrifio llyfr neu lyfryn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1871, a hynny gan awdur yn galw ei hun yn Ieuan Padarn. Ymddengys fod y llyfr wedi ei gyhoeddi gyntaf fel cyfres o erthyglau mewn cylchgrawn o'r enw 'Athraw'. Pwy felly oedd Ieuan Padarn?

Fe'i ganed yn Llanddeiniolen yn 1851, yn fab i John a Margery Jones, a oedd yn byw bryd hynny yn Nhan y Marian, Dinorwig. Symudodd y teulu'n ddiweddarach i Minffordd, ac yr oedd y tad yn cael ei adnabod fel gweinidog Capel Sardis, ond yn arddel yr enw Yr Hen Gloddiwr pan oedd yn ysgrifennu i'r Wasg. Un o blwyf Dolbenmaen oedd y fam, merch Evan Evans, yr Efengylwr. Brawd iddi oedd y Parch William Evans, Cefncymerau, ac yr oedd ewythr iddi hefyd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghefn Mawr ger Wrecsam. Enw bedydd Ieuan Padarn oedd Evan Evans Jones.

Yn 1871 roedd yn parhau i fyw gartref, ac yn disgrifio'i hun ar y Cyfrifiad fel *"local Baptist preacher and engine fitter"*. Gŵr ifanc ugain oed oedd felly pan gyhoeddwyd ei lyfr/llyfryn "Nosweithiau..." O fewn blwyddyn byddai'n gadael cartref, ac yn gwneud hynny i hyrwyddo ei addysg ac i baratoi am y weinidogaeth. Sut felly y byddai '*engine fitter'* yn Chwarel Dinorwig yn gallu cynnal ei hun i ddilyn cwrs addysg yn y cyfnod hwn? Daw rhan o'r ateb flwyddyn yn ddiweddarach.

Ar nos Wener, 5ed o Ionawr 1872 cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yng Nghapel Sardis i ffarwelio â Ieuan Padarn, ac i gyflwyno iddo anrhegion ar ran y gymdogaeth – ac nid gan aelodau Sardis yn unig. Roedd gweinidog yr Annibynwyr yn Neiniolen, y Parch O. Jones, gweinidog y Methodistiaid yn Ninorwig, y Parch W. Davies, gweinidog y Methodistiaid yn Neiniolen, y Parch W. Rowland a'r Parch Tecwyn Parry, Llanberis hefyd yn cymryd rhan. Llywydd y cyfarfod oedd Owen Parry, Bron Elidir, Goruchwyliwr Chwarel Dinorwig, ac ef fu'n gyfrifol am drefnu casgliad a thysteb iddo, yn cael ei gynorthwyo gan ddwy wraig – Mrs Jones, Foel a Mrs Thomas, Ty Capel. Yr oedd Glan Padarn yno yn canu, a bardd o'r enw Gweirydd Wyllt yn cyflwyno tri englyn iddo. Mae'n ymddangos mai gŵr ifanc bychan o gorffolaeth oedd Ieuan Padarn, oherwydd mae llinell gyntaf un o'r englynion yn ei ddisgrifio fel *"Dyn bach mawr, cawr yng nghorff corrach"*.

Anrhegwyd ef â llyfrau, ac i ddiweddu'r cyfarfod cyflwynwyd y dysteb iddo gan Miss Parry, Blue Peris a phwrs yn cynnwys £27 – 7 – 4. (yn cyfateb heddiw i tua £1,700). Mae'n gyfanswm anhygoel i ardal fechan fel Dinorwig a'r Fachwen.

Gyda'r gefnogaeth ariannol hael hon roedd Evan yn gadael am addysg yn ysgol Ap Cynddelw yn Rhuthun. Oddi yno aeth i ddilyn cwrs i gyflwyno'i hun i'r weinidogaeth yng Ngholeg Llangollen. Cafodd ei ordeinio dair blynedd yn ddiweddarach.

Roedd Ieuan Padarn wedi cyhoeddi ei lyfryn yn 1871, a hynny pan nad oedd ond ugain oed. Ond gan mai ym mis Ionawr y flwyddyn honno y daeth o'r wasg, mae'n bur debyg i'r gwaith gael ei gwblhau pan oedd yn bedair ar bymtheg oed. Mae hysbyseb yn 'Seren Cymru' yn rhoi'r teitl *"Nosweithiau Gauafol yn yr Hafod"*, ac yn ei ddisgrifio fel *"llyfryn bach tlws iawn gwerth tair ceiniog..... ac nis gall darlleniad o hono lai na bod o les mawr*." Ond does dim eglurhad am beth yn union yw cynnwys y llyfryn. Bu'n rhaid chwilio drwy gatalogau'r Llyfrgell Genedlaethol, ond does dim sôn amdano yno. Er hynny, yn 1914, (a Ieuan Padarn bellach wedi marw) mewn hysbyseb arall yn 'Seren Cymru' caiff y llyfryn ei ddisgrifio fel *"Ymddiddan ar bynciau Ysgrythurol,"* ac fel *"llyfr rhagorol i wobrwyo plant yr Ysgol Sul."* Mae'r llyfr bellach yn cael ei werthu am geiniog – bargen! Ond mae yma hefyd awgrym cynnil fod y cyhoeddwyr am gael gwared â'r copiau oedd yn weddill!

Ni chyhoeddwyd dim arall gan Ieuan Padarn gydol ei oes, ar wahân i ddarnau o farddoniaeth mewn amryw bapurau newyddion. Yr oedd hefyd yn gynganeddwr, a does ond dyfalu gan bwy ac ym mhle yn Ninorwig y cafodd wersi yn y canu caeth.

Ar ddiwedd ei gyfnod yng Ngholeg Llangollen fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar Bethel, capel y Bedyddwyr yn Rhos-y-bol, ar Ynys Môn, ac arhosodd yno hyd ei ymddeoliad yn 1904. Bu'n weithgar o fewn y dalgylch, a gwelir ei enw droeon yn beirniadu ar gystadleuthau llenyddol yng ngogledd Môn, ac fel arweinydd gwahanol gyfarfodydd. Ni fu'n briod, ond yr oedd yn lletya gyda Hannah Roberts, gwraig weddw a oedd yn un o aelodau gwreiddiol y Bedyddwyr yng Ngapel Bethel ers 1841. Bu hi farw yn 1898 yn 86 mlwydd oed, a Ieuan Padarn fu'n talu teyrnged iddi ar ran y teulu a'r gymdogaeth. Wedi hynny bu'n byw mewn tŷ o'r enw Bryn Paris, Rhos-y-bol, ac yno y bu farw ym mis Awst 1910. Talwyd teyrnged iddo gan ei olynydd, y Parch W. Morton Jones, ond roedd yr angladd yn hollol breifat yn ôl ei ddymuniad. Fe'i claddwyd yn Amlwch.

**Y John Hughes arall**

Yn gynharach eleni bu cais am wybodaeth am John Hughes, Hafod Owen, Ceunant, a gollodd ei fywyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ond nad yw wedi ei gofnodi ar unrhyw gofeb yn Llanrug. Ond mae'n ymddangos fod yr enw wedi ei gymysgu â John Hughes arall – o Lanberis, ond mai John Lloyd Hughes oedd hwnnw. Mae trefniadau mewn llaw bellach i gofnodi John Hughes, Ceunant ar y gofeb yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.

Cafwyd peth gwybodaeth am y John Lloyd Hughes o Lanberis, a'r ffaith i'w gorff gael ei ddychwelyd o Ffrainc a'i gladdu ym mynwent Caeathro. Cafwyd mwy o'i hanes gan Alan Roberts o Benygroes (Llanberis yn wreiddiol), a dyma sydd ganddo i'w ddweud am ei hanes, a hanes y teulu:

Hwyliodd John Lloyd Hughes i Canada yn 1912. Croesodd wedyn o Halifax, Nova Scotia i'r Unol Daleithiau. Fe'i disgrifir fel *'salesman'*. Ei gyfeiriad parhaol olaf cyn gadael Cymru oedd 6 Princess Road, Bangor (rhwng Ffordd y Coleg a Ffordd Siliwen). Yr oedd yn anelu am Chicago. Mae sôn am Thomas Lloyd Hughes, brawd i John, ym mhapur newydd 'Y Drych' – yntau hefyd yn AmericWa. Roedd brawd arall, David Lloyd Hughes wedi cyrraedd Boston ym mis Mai 1914, ac yntau hefyd a'i fryd ar fynd i Chicago.

Cafodd Thomas Lloyd Hughes ei anafu'n ddifrifol yn y Rhyfel Mawr, a saethwyd ei ddwy goes i ffwrdd. Roedd ganddo wraig a phlentyn ifanc yn Chicago. Ymunodd John gyda'r Expeditionary Force yn 1916 fel aelod o Gwmni Ambiwlans y fyddin, a gwasanaethu yn ardal Metz, Moselle yn Ffrainc. Bu farw o afiechyd ar yr ysgyfaint a drodd yn niwmonia yn Awst 1918. Dyma hefyd gyfnod y Ffliw Sbaenaidd.

Ond pam y cysylltiad â Llanberis? Yr oedd tad John, Thomas a David wedi marw yn 1907, ac mae'n debyg mai dyma pryd y symudodd y fam i fyw i 2 York Terrace, Llanberis. Yno hefyd yr oedd ewythr i'r bechgyn, sef y Parch Thomas Lloyd, a ddaeth yn weinidog ar Gapel Coch yn 1905. Enw cartref y gweinidog oedd Bron y Graig, ac o bosib mai dyna pam y cysylltir John gyda'r cyfeiriad hwnnw.

Yr oedd y teulu wedi symud cryn dipyn – y tad o Ysbyty Ifan a'r fam o Gaernarfon. Yr oedd cysylltiadau hefyd â Chaergybi – a'r tri brawd wedi ymfudo i'r America.

Llawer o ddiolch i Alan am olrhain hanes John Lloyd Hughes a'i gysylltiad (digon tenau!) â Llanberis.

**Mary Gregory**

Tra'n sôn am hanes Daniel Gregory a'r New Inn yn Llanberis, soniais fod ei weddw, o bosib, wedi symud i Fangor i fyw. Bellach gellir cadarnhau hynny. Mae adroddiad yn y North Wales Chronicle ym Mehefin 1852 yn adrodd am gyfarfod o Undeb Tlodion Bangor, ac yn cyfeirio at Mary Gregory, 75 oed *"belonging to the parish of Llanberis"* yn derbyn nawdd, ond fod Undeb Tlodion Caernarfon yn gwrthod ei ad-dalu. Penderfynwyd fod Swyddog yr Undeb yn cysylltu â'i mab, a oedd yn ôl yr adroddiad yn alluog i'w dalu. A ddigwyddodd hynny, nis gwyddom. Ond yn yr un papur am fis Awst y flwyddyn honno, daw'r wybodaeth fod Mary Gregory wedi marw ar y 1af o Awst *"wife of the late Daniel Gregory, mine agent of the Llanberis Copper Mine."* Tybed ble claddwyd hi?

Gwahanol bobl gafodd y sylw y mis hwn, ac mae'r arian a gasglwyd i roi addysg i Ieuan Padarn gan gymdeithas Dinorwig yn dal i'm rhyfeddu. Tybed oes enghreifftiau eraill tebyg o fewn y fro? Anfonwch unrhyw ymholiad neu wybodaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi dros y ffôn / e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*. Diolch yn fawr.

**Diolch**
Diolch yn fawr iawn i aelodau eglwysi Capel Coch, Nant Padarn a gweddill Gofalaeth Fro'r Llechen Las am eu dymuniadau da a'u rhoddion caredig ar achlysur f'ymddeoliad ddiwedd Awst. Mae wedi bod yn fraint i mi wasanaethu eglwys Capel Coch (ac eglwys Rehoboth, Nant Peris hyd nes iddi ymuno â Chapel Coch ddiwedd 2018) ers i mi ddod atoch yn weinidog ddechrau Hydref 1988. Braint hefyd ers mis Mai 2003 fu cael bod yn weinidog i eglwys Annibynnol Nant Padarn wedi i'r eglwys ymuno â Gofalaeth Unedig Deiniolen, Llanberis a Nant Peris (fel yr oedd ar y pryd) ac ymuno hefyd i gydaddoli yn Capel Coch. Yn Nant Padarn y cefais fy magu, a chyda chefnogaeth yr eglwys honno y cefais f'ordeinio'n weinidog i ofalaeth o bedair eglwys Annibynnol yn Abersoch a'r cyffiniau ddiwedd Mawrth 1979. Ers dechrau 2010, trwy drefniant arbennig rhwng yr Ofalaeth a Chapel Tanycoed, Llanrug rwyf wedi cael y fraint o wasanaethu'r eglwys yno hefyd.

Gwelsom lawer o newidiadau dros y 35 mlynedd ers hynny, yn cynnwys dymchwel capel Nant Padarn, cau capel Rehoboth, gwerthu prif adeilad Capel Coch ac ehangu'r Ofalaeth ym mis Ionawr 2015 (dan yr enw newydd Gofalaeth Fro'r Llechen Las) i gynnwys eglwysi Annibynnol Talybont a Llanllechid. Ond trwy bob newid parhaodd y cydweithio rhwng yr eglwysi a pharhaodd hefyd addoliad a gwasanaeth yr eglwysi. Diolch o galon am bob cefnogaeth a chydweithrediad, ac yn bennaf oll diolch am eich cymdeithas yn yr Efengyl a'ch cwmni yn yr oedfaon o Sul i Sul. Daw cyfle yn fuan, gobeithio, i'ch gwasanaethu eto mewn ambell oedfa. Pob bendith a dymuniad da i'r eglwysi i'r dyfodol dan arweiniad Duw. – John Pritchard

**Clybiau a Grwpiau**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00PM tan 7.30PM. Mae'n costio £1, ac mae croeso cynnes i ddysgwyr ac unigolion profiadol!

**Clwb gwnïo**
Cynhelir yn y Ganolfan bob brynhawn dydd Iau, 2.00PM - 4.00PM. Croeso cynnes i bawb!

**Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul drwy'r haf, hyd at ddiwedd mis Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Mae'r grŵp yn cychwyn am 10.00AM o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00PM. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Capel Coch**
**Oedfaon Medi, Hydref a Thachwedd:**
Medi 24ain – Oedfa - 10.00AM
Hydref 1af – Y Parchg Huw Pritchard - 10.00AM
Hydref 8fed – John Roberts Waunfawr - 2.00PM
Hydref 15fed – Oedfa - 10.00AM
Hydref 22ain – Oedfa Diolchgarwch - 10,00AM
Hydref 29ain – John Roberts Waunfawr - 10.00AM
Tachwedd 5ed – Edward Morris Jones - 2.00PM
Tachwedd 12fed – Y Parchg Trefor Lewis - 2.00PM
Tachwedd 19eg – Idris Jones - 10.00AM
Tachwedd 29ain – Y Parchg Euron Hughes - 5.00PM

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis, a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10:30AM a 2:00PM o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau mis Hydref fel a ganlyn:-
Hydref 1af - 11.00AM - Cymun Bendigaid
Hydref 8fed - 11.00AM - Boreol Weddi
Hydref 15fed - 11.00AM - Cymun Bendigaid a Diolchgarwch am y Cynhaeaf
Hydref 22ain - 8.00AM - Cymun Bendigaid, 11.00AM - Gwasanaeth Teulu
Hydref 29ain - 11.00AM - Boreol Weddi, 5.00PM - Gwasanaeth unedig Bro Eryri yn Eglwys Crist, Deiniolen

**Enillwyr Clwb 100**
Gorffennaf - 1) Meira Williams 2) John Gwynedd Jones 3) Kevin Griffith
Awst - 1) Ellen Hughes 2) Sharon Griffith 3) Owain Rees Jones

**Cynhelir Cyngerdd Mawreddog** ar **nos Sadwrn Medi 30ain am 7.00PM** yng nghwmni **Annette Bryn Parri, Stefano Nerozzi** ac amryw westeion. Mae'r tocynnau'n £12.50, plant dan 16 - rhoddion yn unig, ac ar gael wrth y drws. Elw tuag at Ward Alaw.

**Eglwys Sant Peris**
**Gwasanaethau mis Hydref**
Hydref 1af – 9:30AM - Boreol Weddi
Hydref 8fed – 9:30AM - Cymun Bendigaid, 4.00PM – Gwasanaeth Teulu
Hydref 15fed – 9:30AM - Boreol Weddi
Hydref 22ain – 9:30AM - Cymun Bendigaid
Hydref 29ain – 9:30AM - Cymun Bendigaid, 5.00PM – Gwasanaeth unedig Bro Eryri yn Eglwys Crist, Deiniolen

Hefyd cynhelir gwasanaeth un ai'r Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob dydd Mawrth am 11:00PM.






ECO'r Wyddfa
www.ecorwyddfa.co.uk



## Bedydd yn Eglwys y Waun

Cafwyd gwasanaeth bedydd hyfryd iawn yng Nghapel y Waun ar 20fed Awst pan ddaeth y Parch Marcus Robinson draw i fedyddio Gwil Dafydd Morgan, brawd bach Math a Llew a mab Beth ac Aron. Roedd yn wych cael cwmni'r teulu a chyfeillion!

**Cangen Plaid Cymru**
Wedi toriad yng nghyfarfodydd yr haf, bydd ein cyfarfodydd misol yn ail gychwyn ar y trydydd nos Iau pob mis am 7.30pm yn y dafarn. Croeso i aelodau newydd neu i gyn-aelodau i ail-ymuno gyda ni. Bydd y rhaglen gweithgareddau ar gael yn fuan.

**Llwyddiant arholiadau**
Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi llwyddo mewn arholiadau o bob math yn ystod tymor yr haf. Gobeithio bod pawb yn hapus gyda'r canlyniadau a'ch bod yn edrych ymlaen at symud ymlaen i'r cam nesaf yn eich maes addysg, hyfforddiant neu yn y byd gwaith. Dymuniadau gorau posib i pob un ohonoch.

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru**
Cafwyd Eisteddfod wych ym Moduan eleni, ac os oeddech chi'n gallu bod ar y maes neu'n gwylio neu'n gwrando o adra, dwi'n siŵr eich bod wedi gweld ambell i un o'r Waunfawr yn cymryd rhan. Roedd Miri Siôn, Gwel y Mynydd yn amlwg yn y cystadlu gydag Ysgol Glanaethwy, a chafodd Martha Rhys, Plas Glynafon gyntaf ar yr unawd piano dan 19eg, a hithau ddim ond yn 16 oed. Bu nifer o ferched y pentref hefyd yn cystadlu ar y dawnsio, a gobeithiwn gael lluniau a chanlyniadau erbyn y rhifyn nesaf.

**Cyngor Cymuned Waunfawr**
Deallir bod gwefan y Cyngor Cymuned wedi cael ei diweddaru a bod modd bellach i ddarllen am waith y Cyngor ar y wefan hon gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd. www.ccwaunfawrcaeathro.co.uk)

**Panad a Sgwrs**
Yn ystod cyfarfod arferol ar ddydd Iau 28ain Medi, bydd gwerthiant cacennau er budd elusen cancr Macmillan. Gallwch fwyta y gacen rydych wedi ei phrynu yno neu mynd a hi adref, ac wrth gwrs, mae croeso i bawb!

**Defaid Valais Pant Gwyn**
Mae wedi dod yn arferiad erbyn hyn i sôn am ddefaid Valais arbennig Pant Gwyn yn y golofn hon pob mis Medi, a tydi eleni ddim yn eithriad. Cafodd Gerallt a Kelly, Pant Gwyn, lwyddiant ysgubol eto eleni yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd ac hefyd yn y Gwobrau Cenedlaethol. Amhosibl yw rhestru'r holl wobrau yma ond pleser arbennig ydi gweld bod Alfie a Luca, y plant, hefyd wedi bod yn llwyddianus wrth arddangos y defaid yn y Sioe.

**Cydymdeimlo**
Cafodd nifer o deuluoedd Waunfawr brofedigaethau yn ystod yr haf ac rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant â chi ac yn anfon cofion cynnes atoch. Collodd Rose, Bryn Môr ei chwaer, oedd yn byw'n y Felinheli. Bu farw dau o hen hogiau'r Weun, sef Len Taylor, brawd Aled Taylor, Dôl Erddi, yn ogystal ag Ian Oliver – y ddau yn ffrindiau bore oes.

Bu farw Ann Thomas, Treforfan gynt. Un o Gaernarfon oedd Ann, cyn iddi ymgartrefu a magu teulu yn Waunfawr. Mae nifer ohonoch yn cofio Ann yn gweithio yn y syrjeri am flynyddoedd, yn un o'r tîm o bobl oedd ac sydd o hyd, yn rhoi gwasanaeth ardderchog i bawb sydd ei angen. Mae'n gadael ei mab Gwyn, Emma ei wraig a'u dau blentyn, a hefyd Cain a Luc ei wyrion, hogia y diweddar Dafydd.

Un arall o hogiau'r Weun fu fawr yn ystod y mis oedd Gareth Miles. Mab Trefeddyg oedd Gareth, gŵr i Gina, tad i Elen, Branwen ac Eiry a brawd mawr i Lisabeth Miles a Gill Wyn (Y Frenni). Fel un o sefydlwyr Cymdeithas yr Iaith yn 1960au'r ganrif ddiwethaf, mae'n wir dweud bod Gareth Miles wedi gadael ei farc go iawn ar y Gymru gyfoes, a diolch iddo am hynny.

**Merched y Wawr**
Diolch i Bethan Williams, yr ysgrifenyddes, am yr adroddiad canlynol:

Yn fras dyma'r rhaglen a drefnwyd ar gyfer tymor 2022/23

Noson ymaelodi oedd mis Medi a chafwyd lluniaeth ysgafn a drefnwyd gan Heulwen Jones a Bethan.

Mis Hydref yr awdures/cogyddes/actores Rhian Cadwaladr a'n diddanodd ni trwy ddarllen pytiau o'i llyfrau a sôn am ambell i rysait o'i llyfr coginio "Casa Cadwaladr". Diolchwyd iddi am noson hwyliog gan Heulwen Huws. Irene ag Ann oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl.

Dathlu'r Nadolig ychydig yn wahanol oedd hi eleni gan fod nifer o'r aelodau yn dioddef o'r Covid. Tec-aŵe o Becws Melys Caernarfon gafwyd, diolch i Bethan a Heulwen Jones am drefnu, casglu a dosbarthu'r bocsys bwyd.

Nesta Eluned, arlunydd lleol ddaeth atom mis Ionawr i siarad am ei gwaith a sut mae'n mynd ati i greu, datblygu ac yna arddangos ei lluniau. Mae'r broses yn medru bod yn faith a dipyn o waith hefyd ynghlwm yn y dewis a dethol y lluniau fydd yn cael eu harddangos heb sôn am y fframio, pacio, prisio a'r cludo. Mae'n werth i chi fynd i weld ei lluniau pan gewch y cyfle. Nia Rhys a Carys oedd merched y baned a'r raffl a diolchwyd i Nesta gan Gill.



**Lluniau hapus gwyliau'r haf**
Wedi i mi roi neges ar facebook yn gofyn be oedd pobl Weun wedi bod yn ei wneud dros yr haf, mi dderbyniais y llun hapus yma o Caio, Cian, Noa ac Elis, Bro Waun yn mwynhau diwrnod allan yn Sŵ Caer. Diolch i Fiona eu mam am ei anfon.



## Cwmni newydd Bocs Sebon

Wrth fynd o gwmpas mae yr Eisteddfod braf iawn oedd dod ar draws cwmni newydd o'r Waunfawr oedd yn arddangos yno. Bocs Sebon yw enw cwmni Gwyneth ac Enlli Pritchard, Llys Meredydd. Maent yn gwneud pob math o eitemau megis sebonau naturiol, balmau, fframiau botaneg a phapur wedi ei argraffu â llaw. Mae popeth maent yn ei wneud yn naturiol, di-blastig cynaliadwy ac wedi ei wneud â llaw. Pob lwc i chi'ch dwy yn eich menter newydd. Efallai na fydd angen i bobl Waunfawr grwydro yn bell i brynu rhai o'u anrhegion Nadolig eleni!

Dathlwyd Gŵyl Ddewi yn Nghanolfan Waunfawr gyda lluniaeth wedi ei drefnu gan yr aelodau. Diolch arbennig i Irene am y cawl tatws a chennin hynod flasus ag i bawb arall gyfranodd i'r wledd. Bethan oedd yn gyfrifol am y blodau i addurno'r byrddau.

Mis Mawrth yr hanesydd Elin Tomos oedd yn sôn am a darllen ambell bwt o'i llyfr 'Y Mae Y Lle Yn Iach' sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth iechyd a gofal pobl yn ardaloedd y llechi yn Nyffryn Peris a thu hwnt a darllen ambell bwt ohonno. 'Roedd y gyfrol hon yn addasiad o draethawd a gyflwynodd Elin fel rhan o'i gradd Meistr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2018. Olwen Williams a Glenys oedd yn gweini'r baned a'r raffl, ac Alma wnaeth y diolchiadau.

Noson gyda Sonia Williams y steilydd lliw a dillad oedd yn mis Ebrill. Noson hynod ddiddorol a dwi'n siŵr bod nifer wedi mynd adre' i drio sortio eu cwpwrdd dillad, neu penderfynu bod angen 'outfit' newydd. Diolchwyd iddi gan Sylvia a Heulwen Huws a Heulwen Jones wnaeth y baned.

Mis Mai, Sian Elen Tomos, Prif Weithredwr Gisda ddaeth atom i sôn am yr elusen. Mae Gisda yn cefnogi pobl ifanc bregus Gwynedd rhwng 16 a 25 i fyw yn annibynnol. Soniodd Sian am yr heriau a'r balchder oedd ynghlwm â hyn. Mae Sian wir yn angerddol am y gwaith a byddai wedi bod yn bleser cael gwrando arni am oriau yn siarad. Mae'r pobl ifanc yn lwcus o'i chael wrth y llyw. Pat oedd yn diolch iddi a Heulwen Huws eto yn gweini'r baned.

I gloi y tymor trefnwyd trip, ar y cyd â chlwb Paned a Sgwrs, i ymweld â gerddi cudd Plas Cadnant. Er gwaetha'r tywydd, cafwyd prynhawn diddorol. I'r rhai a fentrodd o amgylch y gerddi, mi roeddem yn hynod lwcus i gael Ann (Croesor) yn ein plith, sy'n hynod wybodus am bob math o flodau, llwyni a choed a'r gallu i enwi pob un. Diolch Ann. Sgwrsio a rhoi y byd yn ei le wnaeth y rhai nad oeddent yn medru mentro allan, un o'r rhain oedd Grace Dawson sydd â dawn arbennig o ddweud stori, mi oedd pawb o'i chwmpas wedi cael prynhawn llawn hwyl a chwerthin.

Diolch i Bws Peris am ein cludo.

Yn anffodus ni fydd Merched y Wawr yn cyfarfod eleni.

## Rygbi Gogledd Cymru



Gyda thwrnament Cwpan Rygbi'r Byd yn cychwyn y mis yma, tybed fydd rhai o hogiau Waunfawr yn cynrychioli eu gwlad yn y dyfodol? Dau sydd wedi profi llwyddiant mawr yn ddiweddar ydi Gruff Llwyd, Cae Rhos ac Osian Llewelyn, Dôl Erddi. Mae'r ddau wedi bod yn ymarfer deirgwaith pob wythnos dros yr haf gyda charfan Rygbi Gogledd Cymru o dan 18 oed. Ar 27ain Awst, llwyddodd y tîm i guro tîm y Dreigiau o 24 - 5 ar faes Clwb Bae Colwyn. Sgoriodd Gruff un o'r ceisiadau ar ôl derbyn pas wych gan Osian. Da iawn chi hogiau, rydan ni yn falch iawn o'ch llwyddiant.




Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

CEIR CYMRU
Diolch am gefnogaeth ein cwsmeriaid yn Eryri dros 25 mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
01286 673535
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP AVW
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk




# CHWILAIR MIS HYDREF - CYMOEDD A DYFFRYNNOEDD

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | Y | Ff | R | Y | N | Rh | E | I | D | O | L | B | C | T | I | N | C |
| Y | Y | O | D | T | R | D | D | E | N | A | R | C | W | D | Ch | Y | Ll |
| Ff | A | Ff | H | O | E | Y | Y | U | W | C | C | W | M | Y | G | L | O |
| R | E | W | R | D | I | Ff | Ff | S | A | W | L | M | G | W | Y | I | D |
| Y | G | A | N | Y | C | R | R | T | U | M | B | C | W | L | E | S | T |
| N | D | T | I | Ff | N | Y | Y | R | N | M | Ff | Y | E | Ch | C | M | E |
| A | Y | M | U | R | A | N | N | Y | Dd | E | W | N | N | O | Y | W | I |
| R | W | T | H | Y | F | M | A | D | Y | L | Y | O | D | B | S | C | T |
| D | L | A | W | N | A | A | M | N | F | Y | T | N | R | M | T | W | R |
| U | C | N | Y | C | M | E | A | S | T | N | R | D | A | W | A | M | C |
| D | N | A | R | O | W | N | N | B | A | Ll | M | B | E | C | C | P | A |
| W | Y | T | S | N | C | T | A | R | W | Y | E | Ng | Th | S | W | E | Y |
| Y | R | N | A | W | S | W | A | I | T | N | F | T | R | E | M | N | O |
| N | Ff | Y | D | Y | Ff | R | Y | N | M | Y | M | B | Y | R | I | N | S |
| C | Y | R | B | S | E | O | C | W | M | C | O | W | L | Y | D | A | U |
| G | D | Ff | H | I | T | G | B | D | U | S | T | O | Dd | S | W | N | C |
| W | I | Y | N | C | W | M | M | A | R | Ch | L | Y | N | T | A | T | Y |
| T | R | D | O | D | Y | Ff | R | Y | N | T | E | I | F | I | L | D | B |

CWM AFAN
DYFFRYN AMAN
DYFFRYN ARDUDWY
CWM BOCHLWYD
DYFRYN CLWYD
DYFFRYN CONWY
CWM COWLYD
CWM-Y-GLO
CWM CYNON
CWM GWENDRAETH
CWM IDWAL
DYFFRYN MAENTWROG
CWM MARCHLYN
CWM MELYNLLYN
DYFFRYN MYMBYR
DYFFRYN NANTLLE
CWM PENNANT
DYFFRYN RHEIDOL
CWM SILYN
DYFFRYN TANAT
DYFFRYN TEIFI

**CWESTIYNAU**

1) Pa un o'r rhain sydd ddim yn gwm?
2) Sawl cwm yn y chwilair sydd yn Ne Cymru?
3) Beth yw enwau'r cymoedd hyn?
4) Pa un yw'r cwm tecaf?
5) Pa gwm (go iawn) sydd ym mro'r Eco?

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

# CHWILAIR MIS AWST/MEDI - GLÖYNNOD BYW

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | L | A | N | E | R | O | N | E | A | L | B | N | Y | W | G |
| S | Th | L | Ö | M | I | W | G | W | Y | N | B | A | Ch | W | W |
| M | M | Ô | R | E | P | Ll | W | A | R | E | P | U | A | R | E |
| E | A | Dd | M | A | N | T | E | Ll | P | A | U | N | B | O | I |
| L | N | Y | G | W | Y | S | I | C | Rh | W | N | Ch | W | M | R |
| Y | T | N | E | L | C | O | R | B | R | Ö | Y | O | I | A | L |
| N | E | Y | N | T | E | R | L | A | W | F | Ll | G | Ll | R | Ö |
| Y | Ll | Ö | C | S | M | S | Ö | Ch | A | Rh | N | Ll | I | D | Y |
| Rh | G | L | U | A | P | C | Y | W | M | S | P | E | R | Ll | N |
| A | A | R | M | Y | R | O | N | N | N | U | A | T | T | E | Y |
| W | R | I | R | W | L | P | B | A | Y | D | F | N | E | T | P |
| N | P | E | I | B | P | O | R | T | W | C | R | A | C | N | E |
| W | I | W | M | M | A | R | Y | P | G | Y | E | M | W | A | R |
| Y | O | G | Ö | R | N | B | Ch | Ll | R | S | W | L | O | M | Th |
| D | G | L | E | Y | S | A | N | D | Ff | I | R | E | Y | U | I |
| B | W | R | N | E | D | Ch | W | E | S | M | O | T | Y | N | A |

Ddaethoch chi o hyd i'r holl löynnod yn y chwilair diwethaf?

Cofiwch anfon unrhyw luniau i'r Eco os gawsoch chi hwyl ar dynnu lluniau rhai ohonynt.

BWRNED CHWE SMOTYN
COPOR BACH
GLESYN Y CELYN
GWEIRLÖYN BRYCH
GWEIRLÖYN Y DDÔL
GWEIRLÖYN Y PERTHI
GWYN BACH
GWYN BLAEN OREN
GWYN MAWR
MANTELL DRAMOR
MANTELL GARPIOG
MANTELL GOCH
MANTELL PAUN
MELYN Y RHAFNWYD
TRILLIW BACH



# Ysgol Waunfawr



**Croeso**
Braf oedd cael croesawu pawb i'r ysgol wedi'r gwyliau, yn enwedig y 12 disgybl newydd yn y Meithrin.

Croesawn Anti Lleucu ac Anti Nia atom fel cymorthyddion dosbarth. Croeso cynnes i chi.

Mae'r dosbarth Meithrin newydd wedi setlo yn dda ac wrth eu boddau yn yr ysgol.

**Ffarwelio**
Yr ydym yn ffarwelio gydag Anti Mari sydd yn cychwyn ar ei chwrs TAR ym Mhrifysgol Bangor. Yr ydym yn dymuno pob llwyddiant iddi yn ei gyrfa newydd ac i'r dyfodol.



**Edrych ymlaen**
Yr ydym yn edrych ymlaen at weithgareddau'r tymor ac yn edrych am bobl sydd yn barod i'n cynorthwyo. Themâu'r ysgol yw ‘Fi Fy Hun’, ‘Sêr’ a'r ‘Chwedegau’.

Cysylltwch os allwch gynorthwyo neu gynnig gweithgaredd i'r plant.



***Technocamps***
Bu *Technocamps* yn yr ysgol yn dysgu sgiliau digidol i blant Bl 1, 2, 3, 4, 5, 6. Yr oedd pawb wedi mwynhau chwarae gyda'r *Microbits* newydd ac wedi cael arbrofi yn ystod y diwrnod.





## PENISARWAUN

















**Pwyllgor Neuadd Cymuned**
Tynnwyd y Clwb Cant Awst a Medi a'r enillwyr lwcus yw:-
Awst - 1af - Elgan Williams Pengaer
2ail - Ann Ifans, Sycharth
Medi - 1af - Doris Adlam, 14 Bryntirion
2ail - Susan Williams, Bryn Rhydd
Atgoffir ein haelodau ffyddlon ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth o £12 o fis Medi i fis Medi. Croesewir aelodau newydd er budd y gost o redeg y Neuadd Gymuned. Cynhelir Marathon Eryri ddydd Sadwrn, Hydref 28ain, a byddwn yn falch o wirfoddolwyr i helpu ym Mhen y Pas am ryw ddwy i dair awr yn y bore yn unig.

**Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023**
Cyfrannodd nifer o'r pentref hwn i'r Eisteddfod.

Llongyferchir Lois Eifion ar ei llwyddiant ysgubol fel arweinydd Band Pres Deiniolen, a gipiodd y wobr gyntaf!

Bu ei thad, John Eifion, yntau yn brysur yn cyd-arwain gyda Gwennant Pyrs 109 o aelodau o Gôr y Brythoniaid a Chôr Seiriol. John Eifion hefyd oedd yn canu Cân yr Orsedd brynhawn Gwener, yn Seremoni'r Cadeirio. Bu'n Eisteddfod i'w chofio'n sicr i Gwenllïan Carr, un a fu'n gweithio'n ddiflino i'r Eisteddfod.

Llongyferchir Anest Bryn, gymrodd ran yn Nhalwrn y Beirdd. Anfonir ein llongyfarchiadau i Osian Owen, o Gaernarfon, un a fu'n beirniadu Llefaru yn ein Eisteddfod lwyddiannus ninnau nôl ym mis Gorffennaf. Cipiodd y wobr gyntaf am gyfansoddi tair cerdd heb eu cyhoeddi na'u darlledu.

I fwynhau arlwy pob Eisteddfod rhaid cael cyfle am glonc a phaned a phwy well i weini ym Mhabell Merched y Wawr, a hynny ben bore Iau, 10fed Awst na Jean a'i ffrind Rhian. Wel, pwy biciodd i mewn i'r Babell, ie, efe, Tudur Owen. Bu'n holi Jean, ble roedd hi'n byw ac roedd wedi gwirioni'n lân pan glywodd mai yma ym Mhenisarwaun oedd ei chartref, gan mai un o'r pentref hwn oedd ei fam, un a fu yn llywyddu ein Eisteddfod ni, flynyddoedd yn ôl yng Nghapel Glasgoed. Gobeithio bod Gwyn Mowll wedi mwynhau diwrnod ei urddo i'r wisg las.

**Addysg**
Dymunir llongyfarch ein holl ieuenctid ar eu llwyddiannau addysgol, gyda phob dymuniad da i'r dyfodol. Pob lwc hefyd i'r rhai ohonoch sy'n cychwyn yn eich ysgol Gynradd ac Uwchradd am y tro cyntaf.

**Eisteddfod Rhondda Cynon Taf**
Y mae tasg enfawr yn wynebu gwirfoddolwyr Eisteddfod y Rhondda, yn dilyn llwyddiant ysgubol Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Bydd Eurgain Haf (Sycharth, 5 Bryn Eglwys gynt) yn rhedeg 'Hanner Marathon Caerdydd' ar Ddydd Sul, 1af Hydref i godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf, 2024 a Chylch Meithrin Cilfynydd a Phont Siôn Norton. Bydd yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniad gyda diolch am eich haelioni a'ch cefnogaeth. Mae ffurflen noddi i'w gael gan Ann Ifans (mam Eurgain) drwy ffonio 01286 872407.

**Gwellhad**
Anfonir ein cofion at bawb sy'n sâl yn y pentref, gyda chofion annwyl at Wil Jones, Bryntirion, wedi'i driniaeth fawr i'w goes yn Ysbyty Glan Clwyd.

**Cofion**
Ein cofion anwylaf at Tegid, Leslie a phawb yn y pentref.

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser
671191

# 1,000fed rhifyn *Gronyn* (a'r olaf)




Ar Sul olaf Awst eleni, wrth i mi ymddeol o fod yn weinidog i eglwysi Gofalaeth Fro'r Llechen Las, daeth dwy flynedd ar hugain o gyhoeddi *Gronyn* hefyd i ben gyda chyhoeddi'r milfed rhifyn.

Cylchlythyr neu daflen wythnosol yr Ofalaeth oedd *Gronyn.* Roedd ynddo newyddion am yr eglwysi a'u gweithgarwch ynghyd ag erthygl flaen a geisiai ddweud rhywbeth am yr Efengyl a'r Ffydd Gristnogol.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf *Gronyn* ar Sul cyntaf Medi 2001, ac nid syndod felly mai un o destunau cyntaf y myfyrdodau wythnosol hyn oedd cwymp y Ddau Dŵr yn Efrog Newydd a ddigwyddodd y mis hwnnw.

Ers hynny, cyhoeddwyd mil o rifynnau yn ddi-fwlch, ar wahân i Suliau gwyliau'r haf a'r Sul wedi'r Nadolig bob blwyddyn. Yn wreiddiol, eglwysi'r Ofalaeth yn Neiniolen, Llanberis a Nant Peris a'i derbyniai, ond wedi ehangu'r Ofalaeth yn 2015 i gynnwys eglwysi yn Nhalybont a Llanllechid ehangwyd hefyd gylchrediad *Gronyn*. Roedd hynny eisoes wedi ei wneud hefyd trwy greu gwefan gronyn.org oddeutu tair blynedd ar ddeg yn ôl.

A bod yn fanwl gywir, cyhoeddwyd mwy na mil o rifynnau gan fy mod, ym mlynyddoedd cynnar fy ngweinidogaeth yma, wedi cyhoeddi *Gronyn* yn fisol. Roedd hynny ar ddechrau 90au'r ganrif ddiwethaf, yn nyddiau'r prosesydd geiriau *Amstrad* a'r peiriant argraffu *Gestetner* a'i bapur stensil a'i inc oedd yn rhedeg i bobman os nad oeddech chi'n ofalus! O bosib mai hynny oedd yn gyfrifol am fethu â dal ati ar y pryd am fwy na phymtheg o rifynnau dros ddau gyfnod! Yn amlwg, roedd pethau wedi gwella erbyn 2001, a gwell cyfrifiadur ac argraffydd yn y tŷ ynghyd â llungopïwr yn Capel Coch yn gwneud y cyfan yn haws o lawer. Am rai blynyddoedd, yn hwyr nos Sadwrn y byddwn yn mynd i'r Capel i lungopïo *Gronyn,* cyn i'r llungopïwr ddod yn ddigon dibynadwy i mi fentro gadael y dasg tan y bore Sul.

Dros y blynyddoedd, mae pob math o bynciau wedi bod yn fan cychwyn i negeseuon *Gronyn*: gwleidyddiaeth, chwaraeon, digwyddiadau'r wythnos flaenorol, pobl, y gwyliau Cristnogol, troeon trwstan, pethau y byddwn wedi eu darllen neu wedi eu clywed ar y radio neu weld ar y teledu, neu unrhyw beth a fyddai'n fy nharo ac y byddwn yn meddwl y medrwn ei ddefnyddio. Heb os, mae Trump a Johnson ymhlith y bobl a enwyd amlaf, ond pwy tybed oedd Sebastian Horsley a John Harper, a pham fod 'Ian Wright yn reit' a'r 'Archesgob dan y lach'? Beth oedd Ysbryd Bam a Campo Esperanzo a Kintsugi? A pham sôn am Draeth Sousse a Sul Quasimodo a Baled John a Yoko? Yn syml iawn, am fod pob un o'r bobl neu'r pethau neu'r digwyddiadau hyn wedi rhoi i mi ar y pryd fan cychwyn i ddweud rhywbeth am y Ffydd, ac yn bwysicach na hynny hyd yn oed am yr Arglwydd Iesu Grist.

Mae ambell un wedi gofyn pam y teitl 'Gronyn'. Fe'i dewiswyd am mai rhywbeth bach oedd o – pamffledyn neu daflen pedair tudalen – ac am ei fod yn adlais o'r defnydd o'r gair yn y Beibl. Mae Iesu Grist, er enghraifft, yn cymharu teyrnas Dduw i 'ronyn o had mwstard': yr hedyn lleiaf o'r holl hadau sy'n tyfu'n bren cadarn. Mae hefyd yn sôn am 'ffydd gymaint â gronyn o had mwstard'. Y bwriad o'r cychwyn oedd y byddai *Gronyn* yn medru bod yn rhan o'r weinidogaeth o arwain pobl i ffydd syml yn Iesu Grist.

Wrth ddod â *Gronyn* i ben, rwy'n ddiolchgar am bob anogaeth i'w gyhoeddi dros y ddwy flynedd ar hugain ddiwethaf, ac yn arbennig o ddiolchgar i bawb a fu'n ei ddanfon yn wythnosol i aelodau a chyfeillion yr eglwysi.

Mae eisoes yn rhyfedd iawn i mi heb yr arfer o'i baratoi. Ond er nad oes bellach angen yr erthygl wythnosol ar gyfer *Gronyn,* rwy'n gobeithio dal ati efo'r colofnau misol yn yr *Eco* a *Llais Ogwan.* Mae'n beryg, felly, y daw cyfle i ddweud rhywbeth pellach am y dyn Trump yna!

**JOHN PRITCHARD**

---

# Un funud fach …

## DB5

O bosib na fyddai pawb wedi medru dweud mai'r DB5 oedd o, ond roedd y mwyafrif llethol yn gwybod mai 'car James Bond' oedd yr Aston Martin clasurol, gosgeiddig. Doedd ryfedd bod llygaid pawb arno. Ond buan y trodd pob llygad edmygol ac eiddigus yn llygaid anghrediniol (a'r mymryn lleiaf dirmygus hyd yn oed) wrth i'r car adael y maes parcio a throi i'r dde a gwibio ar hyd stryd unffordd … i'r cyfeiriad anghywir. A bod yn deg â'r gyrrwr, a oedd yn amlwg yn ddieithr i'r ardal, doedd yna ddim arwydd gyferbyn â mynedfa'r maes parcio preifat i'w gyfeirio'r ffordd gywir.

Hyd y gwn i beth bynnag, yr embaras oedd y gwaethaf a ddigwyddodd i yrrwr y DB5 a'i deithwyr. Ond gallasai fod yn waeth o lawer. Ar stryd unffordd, mae'n gwbl angenrheidiol er diogelwch pawb fod pob cerbyd yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Clywsom ddigon am ddamweiniau difrifol ac angheuol a achoswyd gan gerbydau a fethodd â gwneud hynny.

'Myfi yw'r ffordd' yw un o'r delweddau a gyflwynodd Iesu Grist i ni (yn Ioan 14:6). Nid un ffordd ymhlith llawer, ond yr unig ffordd; yr unig ffordd at Dduw. 'Nid yw neb yn dod at y Tad', meddai, 'ond trwof fi'. Geiriau syml, a delwedd syml. Fedrai Iesu ddim dweud yn fwy eglur na hynny! Un ffordd sydd at Dduw, ac Iesu ei hun yw honno. Mor anodd gennym gredu hynny. Mor rhwydd gennym anghofio hynny. Ac mor dueddol ydym o ddadlau bod ffyrdd eraill ar wahân i Grist – neu'n ychwanegol at Grist – o ddod at Dduw. Ond mae Iesu'n dal i fynnu, heddiw fel erioed, 'Myfi yw'r ffordd'.

Ac o feddwl am Iesu Grist fel y ffordd, gellid dweud mai stryd unffordd ydyw nad oes i ni rwydd hynt i wneud a fynnom â hi. Y mae i'r ffordd hon gyfeiriad pendant: mae'n arwain, fel y dywed Iesu'n ddigon clir, at y Tad. Mae'n arwain at Dduw. Chawn ni ddim anwybyddu hynny ac ysgaru Iesu Grist oddi wrth ei Dad nefol. Y ffordd at Dduw ydi Iesu Grist yn gyntaf oll, a rhaid pwysleisio hynny rhag i unrhyw sôn am y ffordd i lawenydd neu obaith trwy Grist, neu hyd yn oed y 'ffordd i'r bywyd' adael Duw allan o'r darlun. Un cyfeiriad sydd i'r ffordd hon, a Duw yw hwnnw. Chawn ni ddim bodloni ar wneud Iesu Grist yn ddim mwy nag athro crefyddol neu arweinydd moesol. Os nad yw'r Iesu a ddilynwn yn dod â ni at Dduw, nid Iesu'r Beibl mohono.

Ac o dderbyn mai Iesu yw'r ffordd, rhaid troedio'n ofalus. Chawn ni ddim rhuthro'n ddifeddwl i bob cyfeiriad. Chawn ni ddim arddel enw Iesu a mynd ati wedyn i'w ddeall a'i ddiffinio fel y mynnwn. Nid digon dweud mai Iesu yw'r ffordd: rhaid i'n dealltwriaeth ohono fel y ffordd fod yn gyson â'r hyn a ddywed y Beibl amdano. Fedrwn ni ddim dilyn y ffordd, i'r cyfeiriad cywir, heb dderbyn yr hyn y mae Duw ei hun wedi ei ddatgelu i ni am ei Fab. Nid ni sydd i benderfynu pwy na beth yw Crist fel ffordd. Mae hynny wedi ei ddangos i ni yn y Beibl ac yn yr Efengyl. Ac fel y gall gyrrwr y DB5 dystio, mae'n beryg rhuthro i ba gyfeiriad bynnag a ddewiswn ni.

**JOHN PRITCHARD**

**Priodas**
Llongyfarchiadau calonnog i Megan a Tomos a briodwyd yn Bron Eifion, Cricieth ar 28 Gorffennaf. Mae Megan yn ferch i Aled a Bethan, Llys Eryri, Ffordd yr Orsaf. Dymuniadau gorau i chi eich dau i'r dyfodol.



**Cartref newydd**
Croeso i Gwenan a David sydd wedi symud i fyw i 1 Parc Canol.

Croeso hefyd i Caryl Bryn a Gethin, sydd wedi ymgartrefu yn Afallon, Rhes Rhythallt. Dymuniadau gorau iddynt yn Llanrug.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Beryl a Phil Griffith, Llecyn ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd Eiri Mair i Fflur a Dan, Llanberis – chwaer fach annwyl i Eban. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau mawr ar enedigaeth Nedw Siôn, mab bach newydd i Siôn a Gwenno, a brawd a ffrind i Efan, 60 Glanffynnon. Pob dymuniad da ichi.

Ganwyd merch fach i Bethan (Mackinnon) a Sean, chwaer fach annwyl i Erin. Croeso mawr i Tara gan y teulu i gyd yma ac yn yr Iwerddon. Llongyfarchiadau mawr.

**Profedigaeth**
Danfonwn gydymdeimlad llwyraf i deulu a ffrindiau Rhiannon Fear, Brwynog, Ffordd yr Orsaf a fu farw'n annisgwyl ar 19 Gorffennaf, yn 71 mlwydd oed. Gwraig gariadus Davyth, chwaer annwyl Olwen, merch y diweddar Barchedig Gwilym a Nellie Parry, merch-yng-nghyfraith Jim a Pat, chwaer-yng-nghyfraith, modryb a ffrind. Colled enfawr i'w theulu a'i ffrindiau oll. Rydych yn ein meddyliau yn y cyfnod anodd yma.

Rydym yn danfon ein cydymdeimlad dwysaf i deulu a ffrindiau Eric Wyn Pritchard, Erol, 36 Nant y Glyn a fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 15 Awst, yn 94 mlwydd oed. Gŵr cariadus a gofalus Jane Olwen, a thad arbennig a chefnogol Janice a Nerys. Colled enfawr i'w deulu annwyl a'i ffrindiau oll. Rydym yn meddwl amdanoch.

Bu farw Thomas John Williams (Tom), gynt o Penfro, Ffordd Bryngwyn yn dawel yng Nghartref Nyrsio Glan Rhos, Brynsiencyn ar 24 Awst, yn 98 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Mili, tad cariadus Judith a Tony, taid hawddgar Dylan a'i briod Lowri, Gerallt a'i briod Julia, Christina a'i chymar Callum, Delwen, Steven, Catrin a Ffion, a hen daid caredig Ela Lois, Lili Mair, Lilly Eira a Thomas. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled.

Yn sydyn ar 30 Awst, yn 86 mlwydd oed, bu farw Meirion Evans o Lanrug, gynt o Fwyty Gwynedd, Llanberis. Priod annwyl y ddiweddar Brenda, tad i David, Ian a Geraint, tad-yng-nghyfraith a thaid annwyl, ffrind cariadus i Owena a brawd hoffus i Bet, John, Jean a'r ddiweddar Gwenda. Colled fawr i'w deulu a'i ffrindiau oll. Danfonwn gydymdeimlad dwysaf i'r teulu a ffrindiau yn y cyfnod anodd hwn.

Rydym yn meddwl llawer am Kevin, Sharon, Elin a Mared, Rhiwen, Bro Rhythallt yn eu profedigaeth drist o golli mam a nain annwyl iawn sef Mrs Betty Owen, Bontnewydd. Danfonwn gydymdeimlad llwyraf at y teulu a ffrindiau.

**Diolch**
Dymuna teulu Menna Williams, Minffordd, Llanrug ddiolch o galon am yr arwyddocâd a chydymdeimlad caredig yn dilyn marwolaeth eu mam. Diolch am y llu cardiau, galwadau personol a ffôn, ac am y rhoddion hael at Ymchwil Cancr. Diolch i holl ffrindiau a chymdogion Menna am eu gofal a chyfeillgarwch arbennig. Diolch hefyd i Meinir Griffiths am y trefniadau trylwyr ac i Selwyn, Mair ac Arwel am eu gwasanaeth yn yr eglwys. Gyda diolch, Shân, Robin, Tim, Ffion a'r teulu oll.

Yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar, fe hoffai Lynda Owen, sy'n gweithio yn y Co-op yn Llanrug ddiolch o galon i'w ffrindiau a chwsmeriaid y siop. Fe dderbyniodd gymaint o gardiau, galwadau a rhoddion ganddynt. Roedd y cyfan yn gysur mawr iddi ac mae'n gwerthfawrogi caredigrwydd pawb.

**Hafan Elan**
Yn ddiweddar, bu trigolion a chyfeillion Hafan Elan mewn dau gyngerdd Tonic yn Galeri Caernarfon. Prynhawn gyda John ac Alun oedd y cyntaf ac yna cawsant wledd yng nghwmni

# Urddo i Orsedd Beirdd Cernyw

Llongyfarchiadau calonnog i Davyth Fear, Brwynog, Ffordd yr Orsaf ar gael ei urddo i Orsedd Beirdd Cernyw yn gynharach y mis hwn.

Mae Davyth yn byw yma'n y pentref ers bron i 30 o flynyddoedd,

yn dilyn symud o Gaernarfon yn ystod y 90au. Cafodd ei eni ym Mryste cyn symud i Fanceinion ac yna i Gernyw pan yn 11 mlwydd oed, gan fynychu Launceston College. Mae'r actor Roger Moore yn gyn-ddisgybl o'r coleg hwn. Yn ystod ei gyfnod yn Launceston, datblygodd ei ddiddordeb mewn ieithoedd a diwylliant Celtaidd. Astudiodd Lefel A yn Weston-super-Mare ac erbyn 1982, roedd wedi mabwysiadu'r ffurf Gernywaidd o'i enw, Davyth, ac ymuno â'r Undeb Celtaidd. Yna dilyn cwrs Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Brighton cyn symud i Gymru yn 1984, a dysgu'r Gymraeg. Fe gyrhaeddodd rownd derfynol Cystadleuaeth Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun yn 1986 gan ddod yn gydradd drydydd, ac yntau ond wedi bod yn astudio'r Gymraeg ers dwy flynedd. Camp aruthrol. Penderfynodd aros yng Nghymru er mwyn



ymarfer y Gymraeg ymhellach.

Bu Davyth hefyd yn gyfrifol am drefnu'r record aml-gyfrannog pop a roc gyntaf yn y chwe iaith Geltaidd o dan y teitl 'Keltia Rok,' a ryddhawyd ar label Sain ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog yn 1987. Cafodd gyfnod yn dysgu yn Ysgol Ardudwy, Harlech ac Ysgol Eifionydd, Porthmadog cyn symud i Ysgol Bodedern ym Môn, ble bu'n bennaeth ar yr Adran Ddaearyddiaeth yno tan 2016, gyda George North a Gareth Wyn Williams ymhlith rhai o'i gyn-ddisgyblion. Er iddo ymddeol yn gynnar, bu'n gweithio fel athro llanw tan 2019.

Treuliodd gyfnod yn Zimbabwe yn ystod y 90au, a chychwyn ar brosiect o safoni enwau Cymraeg ar adar deheuol Affrica, gan orffen y prosiect yn 2016. Safonodd grŵp enwau adar Ewrop hefyd, a chynorthwyo i drefnu rhestrau adar yn y Gernyweg, Manaweg, Gaeleg yr Alban a Llydaweg. Mae rhestrau wedi eu trosi i Brifysgol Bangor, ac mae Davyth erbyn hyn wedi cyhoeddi 11,000 o erthyglau ar adar yn y Gymraeg ar Wicipedia, a thros 1,000 o erthyglau yn y

Gernyweg. Dechreuodd ddysgu'r Gernyweg yn 2020 ac erbyn hyn mae'n aelod o Banel Terminoleg yr iaith.

Daeth yr anrhydedd o gael ei urddo i Orsedd Beirdd Cernyw am ei waith cyhoeddi yn y Gernyweg ar Wicipedia, a phasio arholiad yn ogystal. Mae nifer

fawr o Gernywyr yn dysgu Cymraeg erbyn hyn, a chynhelir dosbarthiadau yng Nghaerdydd, Ceredigion a'r Gogledd Ddwyrain yn achlysurol yn dilyn llwyddiant y dosbarthiadau arlein yn 2020. Mae'n hoff iawn o gwisiau, a chofiwn iddo ymddangos ar y gyfres 'Who Wants To Be a Millionaire' rai blynyddoedd yn ôl, rhaglen gwis 'Mastermind Cymru' yn ogystal â chyfres 'Eggheads' gyda'i frawd Donald. Llongyfarchiadau mawr ar eich llwyddiant Davyth.

Linda Griffiths a chael paned ar y diwedd.

Ddiwedd Gorffennaf, cynhaliwyd diwrnod gyda naws Hawaii yn y ganolfan. Paratowyd bwffe bendigedig gan Beverley y Warden a'i mam. Roedd digon o hwyl yno, yn enwedig gan fod rhai wedi gwisgo crysau lliwgar a sgertiau gwellt. Cafodd pawb hufen iâ i orffen yr achlysur.

Yna ym mis Awst, trefnwyd taith ddirgel gan Elizabeth. Gyda Steven yn gyrru Bws Peris, aethom i Fethesda lle cawsom ginio blasus yng Nghaffi Coed y Brenin wedi ei baratoi gan Wendy, gwraig Steven. Ymlaen oddi yno i Fetws y Coed, lle cawsom hufen iâ unwaith eto. Mae pawb yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n trefnu'r digwyddiadau. Rydym yn lwcus iawn ohonynt.

**Llongyfarchiadau a phob lwc**

Roedd hi'n chwip o Eisteddfod ym Moduan ddechrau Awst ar ôl blynyddoedd o baratoi, a safon aruthrol i'r holl gystadlaethau a'r arlwy trwy gydol yr wythnos. Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau draw ym Mhen Llŷn.

A hithau'n ddechrau tymor academaidd newydd i nifer o blant a phobl ifanc yr ardal, pob lwc i bawb ar y bennod nesaf, a mwynhewch y flwyddyn sydd i ddod.

**Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd**

Cynhaliwyd Eisteddfod hynod o lewyrchus ym mis Awst.  Mae cyfanswm yr arian a gododd Pwyllgor Apêl ardal Llanrug erbyn hyn wedi cyrraedd £7443.84 (mae Cronfa Leol Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd ar agor hyd at Awst 2024). Dylem i gyd fod yn hynod o falch bod holl weithgareddau'r flwyddyn a aeth heibio wedi dwyn ffrwyth ac felly, mae aelodau Pwyllgor Apêl Llanrug yn diolch unwaith eto i chi, drigolion yr ardal, am eich holl gefnogaeth i'r ymgyrch codi arian.

Ymhellach, dymuna aelodau'r Pwyllgor Apêl ddiolch yn fawr iawn am yr ymdrechion a wnaed i harddu'r pentref yn ystod y cyfnod cyn ac yn ystod yr Eisteddfod. Roedd yn bleser gweld y baneri a ddarparwyd gan yr Eisteddfod wedi eu gosod i fyny mewn mannau allweddol ar hyd Ffordd Llanberis, bynting ac addurniadau eraill mewn nifer o fannau, yr arddangosfeydd godidog o flodau, a hefyd arwydd yn pwyntio i gyfeiriad yr Eisteddfod gyda'r cyfan yn creu awyrgylch o groeso a chyfeillgarwch.

**Urddo i Orsedd Beirdd Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd**

Rydym yn danfon ein llongyfarchion i Gwyn Mowll, Ffordd yr Orsaf ar gael ei urddo i'r wisg las yng Ngorsedd y Beirdd ar faes Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan. Mae Gwyn wedi treulio dros ddeugain mlynedd yn dysgu, cefnogi a hwyluso Karate traddodiadol 'Shotokan' yn wirfoddol yng Nghymru, gan gyffwrdd a thrawsnewid bywydau miloedd o drigolion gogledd Cymru. Chwaraeodd ran allweddol yn y gwaith o greu Ffederasiwn Karate Traddodiadol Cymru ar ddechrau'r 90au, gan sicrhau cynnal safonau mewn clybiau. Yn aml, fe gynhelir y gwersi yn dairieithog – yn y Gymraeg, Saesneg a Siapanaeg. Er i'r cyfnod clo fod yn un anodd i'r gamp, mae dyfodol pendant iddi yng Nghymru gyda chefnogaeth unigolion brwdfrydig fel Gwyn. Llongyfarchiadau mawr iddo.

## Rhodd Ariannol i Gylchoedd Meithrin Y Dyffryn

Mae Antur Padarn wedi cyflwyno rhodd ariannol o £50 yr un i gylchoedd meithrin pentrefi Deiniolen, Llanberis a Llanrug.  Sefydlwyd yr Antur yn y 1980au gyda'r bwriad o ddenu gwaith i'r ardal ar ôl llwyddo i wrthwynebu bwriad Cwmni Leading Leisure i ddatblygu pentref gwyliau enfawr yng Nglyn Rhonwy. Bellach, mae'r Antur wedi dod i ben a phenderfynwyd bod yr arian oedd yn weddill i'w ddosbarthu i'r cylchoedd meithrin.



Glyn Tomos (Cadeirydd yr Antur) yn cyflwyno siec i Dilwen Williams, (cyn) Arweinydd Cylch Meithrin Deiniolen, a Howard Huws (aelod o'r Antur).




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA
☎ 01286 672898



AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

# Y Bom

## gan Gwilym Morris Jones

Un o'r llefydd y byddai Catrawd y Commandos yn mynd i ymarfer ynddo adeg yr Ail Ryfel Byd oedd mynydd Cefn Du ger pentref Y Waunfawr; a rhywbeth hollol gyfarwydd i drigolion yr ardal bryd hynny fyddai clywed sŵn gynnau'n tanio ac ambell fom yn ffrwydro'n dod o gyfeiriad y mynydd.

Wedi i'r Commandos ymadael gadawyd nifer o fwledi oedd heb eu tanio. Roedd yr *'ammo'* hyn wedi eu gwasgaru dros y mynydd, ac o ganlyniad byddai rhai o fechgyn y pentref yn mynd yno i'w casglu. Yn aml, gwelid ambell fachgen yn y pentref â bwled reiffl yn ei boced bryd hynny.

Mae un stori'n adrodd sut roedd dau fachgen yn eu harddegau wedi mynd ar y Cefn Du un bore i chwilio am fwledi ac wedi darganfod bom oedd wedi ei gorchuddio yn nhyfiant y gwair. Roedd yr hyn a ddigwyddodd yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw'n frawychus a chyffrous, a dweud y lleiaf.

Yn dilyn y darganfyddiad, roedd y ddau fachgen, sef Billy Lewis ac Islwyn Roberts wedi lapio'r bom yn siwmper Billy a'i chario lawr i'r pentref. Aeth y ddau â'r bom at lan yr afon a gwneud twll yn y ddaear a rhoi'r bom i orwedd ynddo. Yna dringodd y ddau i ben coeden gan ollwng carreg i lawr o'r brigau a pheri i'r bom ffrwydro'n yfflon. Roedd effaith y ffrwydriad fel daeargryn anferthol yn rhwygo drwy'r awyr, a drysau a ffenestri'r tai cyfagos yn crynu dan yr holl ysgydwad.

Anafwyd Islwyn yn ddrwg wedi i'r shrapnel o'r bom ei daro yn ei ochr. Ac yntau wedi ei glwyfo, ceisiodd Billy atal yr anaf drwy rwymo'i grys am ei ganol a'i lusgo i lecyn diogel ar y dorlan. Yna gyda chryn ymdrech, llwyddodd i gynorthwyo'i gyfaill ar hyd y ffordd i'w gartref lle'r oedd ei fam, oedd wedi ei brawychu gan y ffrwydriad, mewn gofid o weld ei mab yn griddfan dan boen. Yn ei ddychryn, rhedodd Billy nerth ei draed i gyfeiriad fferm Tai Isa, lle'r oedd ei dad yn brysur gyda'i gribin yn y cae gwair.

Chwedl Billy, 'Pan gyrhaeddis i Tai Isa, dyma nhad yn gofyn, "Glywis di ryw glec fawr dros y Weun gynna?" Finna'n cymryd arnaf na chlywis mohoni, a'r hen ddyn yn methu deall gan fod y glec yn un mor anferthol!'

Y bore canlynol roedd y Weun yn frith o aelodau'r Heddlu Militaraidd yn eu capiau cochion yn gwibio nôl a blaen yn eu *Jeeps* agored yn holi hwn a'r llall i geisio cael unrhyw wybodaeth am y ffrwydriad.

Meddai Billy wedyn, 'Roeddan nhw fel gwenyn yn mynd o gwmpas y tai yn holi ac edrach os oedd 'na rywun yn gwbod rwbath, neu ella wedi gweld rhywun diarth yn actio'n sysbishys! Ond diolch i'r drefn, ffendiodd y 'ffernols ddim, achos doedd 'na gythral o neb yn gwbod yn iawn be oedd wedi digwydd, a rwsut neu gilydd mi gafodd Islwyn a finna *get awê* efo petha!'

Trwy drugaredd, daeth Islwyn ato'i hun yn gymharol fuan er mawr ryddhad i'w rieni ac i'w gyfaill Billy. Bu stori 'Bom Cefn Du' yn destun siarad i lawer yn y pentref am hir wedi hynny, a phawb â'i fersiwn wahanol am beth ddigwyddodd.

O ran diddordeb, mae olion ambell i dwll (*crater*) yn sgil bomiau'r Commandos i'w gweld ar fynydd Cefn Du hyd heddiw.

Tra'n sôn am y Commandos, stori fach dda yw honno am yr hen gymeriad Robat Gruffydd, fferm Tŷ'n Ronnen, yn dod o'r beudy â bwcedaid o lefrith yn ei law un bore pan oedd y Commandos yn ôl eu harfer yn ymarfer ar lethrau'r Cefn Du. Wrth i Robat groesi'r buarth, chwibanodd bwled o gyfeiriad y mynydd gan daro'r bwced nes bod y llaeth yn llifo trwy'r twll yn ei hochr.

Celwydd golau efallai?


# Casgliad unigryw o glipiau fideo i'w gweld yn Llyfrgelloedd Gwynedd

Mae archif digidol o glipiau fideo gan BFI (British Film Institute) Replay nawr ar gael yn rhad ac am ddim yn eich llyfrgell leol.

Cyfrifiaduron mewn llyfrgell gyhoeddus yw'r unig le mae modd gwylio'r clipiau hyn ac mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn falch o fod yn rhan o'r cynllun arloesol.

Mae'r archif yn cynnwys hen fideos wedi eu digideiddio o gasgliadau nifer o bartneriaid, gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae hyn wedi sicrhau bydd y casgliad eang ar gael i ddefnyddwyr am flynyddoedd i ddod.

Mae'r adnodd unigryw hwn yn rhoi mynediad i'r cyhoedd i archif y genedl drwy ddelweddau symudol. Mae'n archif ddigidol fyw fydd yn tyfu ac yn esblygu fel bydd clipiau newydd yn parhau i gael eu hychwanegu. Bydd yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr wneud gwaith ymchwil a mwynhau casgliad o filoedd o fideos yn deillio o'r 1960au hyd y 2010au.



Gallwch wylio cynnwys sy'n berthnasol i Wynedd megis animeiddiad 'Lwmp o Jaman' gan ddisgyblion Ysgol Maesincla, Caernarfon neu wylio taith y trên stêm olaf o'r Bala i Flaenau Ffestiniog – mae rhywbeth i bawb!

Dywedodd Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd ac Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned sydd â chyfrifoldeb dros y Gwasanaeth Llyfrgelloedd: "Mae'n wych gweld fod Llyfrgelloedd Gwynedd ar y blaen yn cymryd rhan yn y cynllun hwn, a dwi'n siŵr y bydd defnyddwyr Llyfrgelloedd Gwynedd yn elwa'n fawr ohono.

"Bydd yn gyfle gwych i drigolion i ail-fyw digwyddiadau gan bontio'r cenedlaethau. Bydd hefyd yn galluogi pobl i wneud gwaith ymchwil ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ymddiddori yn eu harchifau lleol a darganfod sut mae gwleidyddiaeth, ideoleg a theledu wedi siapio ein bywydau."

Am fwy o wybodaeth am BFI Replay, ewch i www.bfi.org.uk/bfi-replay

# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 18

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Tybed wnaethoch chi fwynhau'r tywydd poeth gawson ni ddechrau mis Medi? Mae cathod fel y cyfryw yn mwynhau tywydd poeth ac yn mwynhau bod yn gynnes o flaen y tân neu wresogydd pan yw'n oerach. Dydy cathod ddim yn gallu chwysu fel pobl ond maent yn ymolchi er mwyn cadw eu hunain yn oerach. Wrth iddynt lanhau eu hunain yn ystod tywydd poeth, mae eu poer yn anweddu oddi ar eu ffwr, sy'n eu hoeri yn union fel mae ein chwys ni'n anweddu ac yn ein cadw ni'n oerach. Maent hefyd yn ddigon call i yfed mwy o ddŵr. Mae'n well gan rai cathod ddŵr glaw, sy'n esbonio felly pam mae Bob yn hoffi yfed dŵr glaw sydd tu allan i fywyd gwyllt a'r adar neu o soseri'r potiau blodau! Oeddach chi'n gwybod bod cathod angen 16 awr y dydd o gwsg ac felly maent yn gall iawn yn cael ambell i napan ychwanegol ar ddiwrnod poeth, yn hytrach na rhedeg o gwmpas yn mynd yn boethach.*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori :

" Fel dach chi'n gw'bod mi ydw i'n hoffi cysgu o flaen y bocs du poeth neu ar blanced gynnes ar fy soffa. Mae cathod angen cysgu am dri chwarter y diwrnod, ac mi fyddai'n trio fy ngorau i gysgu pan fedrai, a phan nad ydy'r deu-droediaid yma'n cadw gormod o sŵn.

Ew! Maen nhw'n anodd ei deall weithiau. Weithiau maen nhw'n fy nghanmol i i'r cymylau am ddal llygoden. Mae hi'n lot o hwyl ceisio dal y pedair-troediaid bach fflwfflyd hynny sy'n trio cuddio yn y waliau cerrig yn yr ardd. Dydw i ddim yn eu bwyta nhw chwaith, o na, dwi'n cael llawn ddigon o fwyd yn fy mhowliau trwy gydol y dydd. Dach chi'n gweld dwi wedi ei dallt hi. Os ydw i'n mewian (ac o gath fawr ddim ond miaw bach sydd gen i, yn dilyn damwain a llawdriniaeth yn fy mywyd blaenorol) neu'n edrach yn hiraethus i gyfeiriad fy mhowliau bwyd, mi fydd un o'r ddau deu-droed, sy'n rhannu fy nghartref i, yn saff o roi rhywbeth neis yn un o'r powliau sydd gen i. Erbyn dechrau'r pnawn mi fydd fy mol yn gweiddi am fwyd, ond maen nhw'n deud nad ydy hi'n amser yr ail hanner o'r tun blasus! Dim yn amser! Fel ddudis i gynna, wnâi byth ddeall y deu-droediaid yma, mae hi bob amser yn amser bwyd… ac mae fy mol fflwfflyd i angen digon ohono fo, coeliwch i fi. Ta waeth, dwi'n crwydro braidd, dim oddi wrth y tŷ cofiwch, mae gen i lawn ddigon o libart yma heb fod angen crwydro'n bell.



Bob a'r Llgod

Mi ddoi nôl at fethu deall y deu-droediaid. Wnes i ddal un o'r pethau bach fflwfflyd yma'r diwrnod o'r blaen, a chan mod i wedi cael gymaint o ganmoliaeth ganddyn nhw, wnes i benderfynu mynd a hi i'r tŷ i'w dangos iddyn nhw. Wel fedrwn i ddim eu cael nhw i roi unrhyw sylw i mi, roddan nhw'n rhy brysur yn siarad efo deu-droediaid eraill sydd wedi bod yn gneud pethau yn y tŷ. Mae hynny'n golygu bod dodrefn a phethau mewn llefydd nad oedan nhw'n arfer bod. Felly ddechreuais i chwarae efo'r peth bach fflwfflyd, ond yn anffodus oherwydd bod y dodrefn wedi symud, mi ddiflannodd y peth bach, a doeddwn i ddim yn gallu dod o hyd iddi. Ar ôl dipyn roeddwn i angen napan a rhaid i mi gyfaddef i mi anghofio bob dim amdani wedyn.

Y noson honno, roddan nhw wedi symud y dodrefn eto byth, i gael gwylio'r lluniau ar y bocs mawr sgwâr swnllyd. Roeddwn i'n ista efo nhw yn cysgu'n braf, ond yn sydyn dyma'r ddeu-droed fach yn rhoi bloedd! Fu bron i mi neidio allan o fy ffwr!

'Sbia! Sbia! Medda hi'n wyllt, 'Mae 'na lygoden fach newydd redeg heibio'r teledu?'

'Ti'n siŵr?' gofynnodd o.

Wrth iddo ofyn, mi redodd y peth bach fflwfflyd heibio i gyfeiriad arall!

'Asiffeta!' meddai'r ddeu-droed fach, 'Mae'r bali cath yma wedi dod a llygoden fyw i'r tŷ! Mi a'i i nôl y trap rŵan! Be sy'n bod arnat ti Bob? Wir yr, mae isio gras.'

Wel oeddwn i wedi fy mrifo i'r byw, 'bali cath' ac 'isio gras' doeddwn i ddim wedi trio ei cholli hi. Nhw oedd wedi bod yn symud pethau o gwmpas y lle. Beth bynnag, fel arfer maen nhw'n hoffi gweld y pethau bach fflwfflyd yn llonydd yn yr ardd ar ôl bod yn chwarae efo fi … Penderfynais i gysgu llwynog a'i gwylio hi'n gosod trap, fydd yn difetha fy hwyl fi i gyd!

Trwy ryw lwc, mi ddaliodd hi'r peth bach fflwfflyd y diwrnod wedyn, a dwi'n gobeithio erbyn hyn eu bod nhw wedi anghofio am y peth.

Erbyn hyn dydyn nhw na finnau wedi bod yn y tŷ ryw lawer oherwydd mae hi wedi bod yn fendigedig o gynnes yma. Dim gwynt oer, dim glaw, jest gwres braf sy'n fy siwtio fi i'r dim. Maen nhw'n bwyta eu brecwast a chinio allan yn yr ardd ac yn ista allan dan rwbath mawr sy'n cadw pelydrau'r haul allan. Dwi'n reit hapus yn ista efo nhw, ond cofiwch mae teils yn gallu bod yn bethau caled, felly weithiau dwi'n ista ar y clustogau sydd ar y cadeiriau tu allan.

Dyna oeddwn i'n ei wneud ddoe, yn mwynhau'r haul a meddalwch y glustog, roedd hi efo fi, wedi bod yn torri pennau blodau yn yr ardd, debyg faswn i'n cael ffrae am wneud hynny hefyd! Ddaeth hi i eistedd efo fi ar ôl dipyn ac agor un o'r petha papur maen nhw'n ei alw'n llyfr, ac edrach ar hwnnw oedd hi a finnau'n mwynhau efo hi. Yn sydyn o nunlle ymddangosodd y ddeu-droed mawr, a dweud, 'Wel myn dian i! Mae'r gath yma wedi dwyn fy nghadair i rwan!'

Dwi'm yn meddwl ei fod o'n flin go-iawn, chwerthin oedd yr un fach. Wnes i aros yno am dipyn ond wedyn cofio mod i wedi clywed sŵn danteithion bach blasus yn mynd i fy mhowlen wrth iddo fo ddod drwy'r drws cefn. Felly mi godais a chynnig ei sedd yn ôl iddo fo a'i 'nelu hi am y tŷ.

Pethau rhyfedd ydy'r deu-droediaid yma."



Bob yn y cysgod



Bob ar glustog

# Deddf Eiddo – Dyma'r Cyfle!

Mae ein cymunedau gwledig ac arfordirol yn wynebu prinder digynsail o gartrefi fforddiadwy oherwydd y bwlch cynyddol rhwng lefelau incwm lleol a phrisiau tai. Mae pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu gorfodi i adael eu cymunedau, gan effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau hanfodol, dyfodol ysgolion gwledig a'r gweithlu sydd ar gael i fusnesau lleol.

Amcangyfrifir hefyd bod bron i 90,000 o aelwydydd ar restrau aros tai cymdeithasol a gwyddom o ystadegau Llywodraeth Cymru fod mwy na 10.5 mil o bobl yn byw mewn llety dros dro.

Mae'r argyfwng tai yn achosi niwed gwirioneddol i bobl a'r economi leol, ac mae'n bygwth cynaliadwyedd ein cymunedau Cymraeg. Roedd y gostyngiad brawychus yng nghanran y siaradwyr Cymraeg i 17.8% o'r boblogaeth yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn brawf pellach o hyn.

Mae targed Llywodraeth Cymru i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd rhwng 2021-26 yn ymhell o fod yn ddigonol, o ystyried y galw parhaus am dai fforddiadwy a'r nifer cynyddol o bobl sy'n byw mewn llety dros dro.

Serch hynny, rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithredu gyda Phlaid Cymru i gyhoeddi Papur Gwyn a fydd yn cynnwys cynigion ar gyfer Hawl i Dai Digonol.

Rydym yn cytuno â'r ymchwiliad diweddar gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru y gallai ymgorffori'r Hawl i Dai Digonol chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael ag anghenion tai ond mai'r rhwystr mwyaf i sicrhau'r hawl yw diffyg tai fforddiadwy o ansawdd uchel.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn credu bod yn rhaid newid y drefn dai bresennol ar gyfer un a fyddai'n sicrhau cartref diogel, fforddiadwy i bawb yn lle system marchnad rydd sy'n trin tai fel cyfle buddsoddi.

Byddai mabwysiadu Deddf Eiddo yn gosod seiliau cadarn ar gyfer sicrhau'r Hawl i Dai Digonol. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys cynigion ar gyfer Deddf Eiddo yn y Papur Gwyn arfaethedig, megis:

- Ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yr egwyddor arweiniol fod tai yn asedau cymunedol er lles pawb.
- Gosod amodau ar brynu a gwerthu tai sy'n rhoi hawliau cyntaf i bobl leol neu sefydliadau a arweinir gan y gymuned.
- Rheoli lefelau rhenti a gwella sicrwydd deiliadaeth i denantiaid yn y sector breifat.
- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu a Strategaethau Tai Lleol yn cael eu harwain gan asesiadau rheolaidd o anghenion lleol.
- Cryfhau hawliau cymunedau dros asedau lleol trwy gyflwyno Hawl Gymunedol i Brynu.
- Mynnu bod polisïau tai a chynllunio, Cynlluniau Datblygu

## Ysgol Brynrefail

**Nofio**

Mae Dion Edwards, sy'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail (Blwyddyn 12 eleni) wedi bod yn nofio i Glwb Nofio Caernarfon ers ei fod yn 6oed ac yn nofio i Nofio Gwynedd ers rhai blynyddoedd. Mae'n Dion codi am 4:45AM bedwar bora'r wythnos ac yn nofio 2awr cyn mynd i'r ysgol. Rhwng nofio a mynd i'r 'gym' mae'n hyfforddi am 16awr yr wythnos.

Bu Dion yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Prydain 2023 yn Sheffield yn ystod gwyliau'r haf. Cafodd Dion wahoddiad i gystadlu, am ei fod yn y 24 uchaf drwy Brydain. Roedd Dion yn nofio ei hoff ddull Pili Pala 100m a 50m. Cafodd Dion lwyddiant mawr, gydag amseroedd gwych a chael ei amser personol gorau yn y ddwy ras gan orffen yn 13eg drwy Brydain gyfan.

Yn Abertawe wrth nofio yng Nghystadleuaeth Agored Cymru 2023 daeth Dion yn gyntaf yn y dull rhydd 50m a 3ydd yn yr 100m.

Roedd nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn cystadlu yn Abertawe - Ollie Teasdale, Now Parry, Elliot Meilluer, Esyllt AchRhys ac Alaw Edwards (chwaer fach Dion). Roedd pob un o'r plant wedi llwyddo a gwella eu hamseroedd.

Yn goron ar y cyfan cafodd Dion e-bost yn ddiweddar gan 'Swim Wales' yn dweud iddo gael ei dderbyn i'r 'Swim Wales Youth Performance Squad'.







a Strategaethau Tai yn bodloni'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Galwn hefyd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf Eiddo yn ystod tymor y Senedd bresennol.

Os ydym am sefydlu'r Hawl i Dai Digonol yn llwyddiannus mae'n rhaid inni ddysgu o brofiad gwledydd lle mae'r hawl yn bodoli eisoes. Dyna pam fod Cymdeithas yr Iaith yn trefnu cynhadledd ar y thema 'Hawl i Dai Digonol: Beth sy'n Bosibl yng Nghymru?' yng Nghaerdydd ar 16 Tachwedd 2023 lle byddwn yn trafod esiamplau o bolïsiau tai blaengar mewn gwledydd a rhanbarthau Ewropeaidd eraill.

Rydym wrth ein bodd bod Javier Burón Cuadrado, cyn Bennaeth Tai Cyngor Dinas Barcelona, yn ymuno â ni fel siaradwr gwadd. Ers 2015, mae Barcelona wedi newid patrwm ei pholisi tai gan ddatblygu dull sy'n siapio'r farchnad i sicrhau ei phwrpas cymdeithasol. Dylai gweledigaeth dinas Barcelona fod yn yn ysbrydoliaeth i Lywodraeth Cymru a holl awdurdodau lleol Cymru.

Am ragor o fanylion am y cynigion Deddf Eiddo a'r gynhadledd Hawl i Dai Digonol, neu i wneud cyfraniad ariannol, ewch i'n gwefan www.cymdeithas.cymru

Mae Walis George yn aelod o Gymdeithas yr Iaith a bu'n Brif Weithredwr cymdeithas dai am ddwy flynedd ar hugain






**Croeso mawr i ddisgyblion blwyddyn 7!** Mae 128 o ddisgyblion newydd wedi trosglwyddo i flwyddyn 7 ers dechrau Medi ac fe gawsant wythnos gyntaf hapus a llwyddiannus yma. Mae pawb wedi setlo'n dda i fywyd a threfn yr ysgol ac wedi eu rhannu i bum dosbarth: 7S, 7E, 7I, 7O a 7N, fel y gwelwch o'r lluniau. O dipyn i beth maent wedi dod i ddeall eu ffordd o gwmpas yr ysgol i'r gwahanol wersi a gweithgareddau.

Rydym fel staff yr ysgol a gweddill y disgyblion wedi dod i'w hadnabod yn eithaf da erbyn hyn ac yn falch iawn o'u croesawu i deulu arbennig Ysgol Brynrefail.





### Ysgol Brynrefail

Dewch i ddathlu gwerth hunaniaeth,
Dewch i rannu gweledigaeth,
Ennyn parch a chreu cymuned:
Drws Brynrefail sy'n agored.

Fel yn hanes ein cynefin,
Dycnwch, dyfal donc a meithrin,
Annog 'wnawn pob dawn a gallu
Ac o wreichion siapio 'fory.

Drwy uchelgais a her beunydd
Cydiwn ym mhob cyfle newydd;
Boed yn gopa bryn neu fynydd
Cyrraedd 'wnawn ni – gyda'n gilydd.

## Cerdd arbennig sy'n dathlu Ysgol Brynrefail

Yn nhymor yr haf daeth y Prifardd Mei Mac i'r ysgol i gydweithio â chriw o ddisgyblion, rhieni a llywodraethwyr ar lunio cerdd i ddathlu'r hyn sy'n arbennig am Ysgol Brynrefail. Dyma'r fersiwn derfynol - cerdd sy'n llwyddo i grynhoi i'r dim rhai o brif nodweddion yr ysgol, ei hanes, ei gweledigaeth a'i hunaniaeth. Diolch i Mei Mac ac i bawb gyfrannodd at ei llunio.

COFFÂD

# Gareth Fôn Jones

Bu farw Gareth Fôn Jones yn hwyr nos Iau, Mehefin 29ain, ar Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, yn 53 mlwydd oed.

Yn enedigol o Tal-y-Llyn, Groeslon, roedd yn fab annwyl i Eric a'r ddiweddar Glenys; brawd direidus i Luned; tad a ffrind annwyl i Sioned; a gŵr a ffrind oes i Rol. Roedd Gareth yn gymeriad hoffus, hwyliog, ffeind a phenderfynol iawn; a bydd pawb yn ei golli'n ofnadwy.

Bu'n Brifathro Ysgol Dolbadarn, Llanberis am dros 10 mlynedd, a chyn hynny'n Brifathro Ysgol Penisarwaun. Roedd yn berson tra arbennig a gyffyrddodd â sawl un ar wahanol adegau; ac mae wedi bod yn gysur mawr clywed yr holl hanesion a straeon amdano dros y misoedd diwethaf.

Roedd Gareth wrth ei fodd yn Ysgol Dolbadarn. Llwyddodd i arwain tîm o staff ymrwymedig iawn i gyrraedd y safon uchaf bosibl, sef gradd 'Rhagorol' ym mhob maes gan gorff dyfarnu ac arolygu Estyn. Cyfeirir yn yr adroddiad at bwysigrwydd Cymreictod o fewn yr Ysgol; roedd hynny'n bwysig iawn i Gareth, a oedd yn llwyr ymwybodol ac effro i'r newidiadau i'r ardal ond a lwyddai i ddarparu'r addysg ac adnoddau priodol i drochi plant yn llwyr i fywyd prysur a gweithgareddau Cymraeg yr Ysgol. Fe wyddai pawb am ei ddawn i ysgogi'r plant gyda chaneuon actol, y côr a sawl parti canu. Roedd yn berffeithydd, a deuai hynny i'r amlwg ym mhopeth a wnai.

Roedd yn boblogaidd iawn oddi allan i'w waith hefyd, ac wedi gweithio mewn sawl lle gwahanol a chadw mewn cyswllt a chreu ffrindiau oes. Roedd yn mwynhau mynd allan i gymdeithasu, ac roedd pawb yn ei adnabod ac yn falch iawn o'i weld bob amser. Roedd Gareth yn ffrind i bawb ac yn mwynhau gweld a siarad efo gwahano bobl. Roedd wrth ei fodd yn eistedd yn yr haul o fewn ei filltir sgwâr, yn arbennig ar Wal yr Anglesey yng Nghaernarfon yn yr haf. Roedd yna wastad griw o bobl o'i amgylch a phawb yn ysu eisiau sgwrs efo fo. Roedd o'n mwynhau byw bywyd.

Doedd Gareth byth yn segur, ac roedd wastad yn chwilio am her newydd. Doedd y cyflwr yr oedd Tŷ Castell (neu Castle House fel y'i gelwid



yn flaenorol) ynddo'n poeni dim ar Gareth, ac aeth ati i'w ddatblygu gan sicrhau cadw'r nodweddion gwreiddiol i gyd. Mae Tŷ Castell bellach yn fusnes llwyddiannus sy'n darparu lle i gysgu i ymwelwyr ynghyd â bwyd Tapas gyda'r hwyr.

Priododd Gareth a Rol ym mis Chwefror 2023 a hynny ar ôl 18 mlynedd hapus iawn gyda'i gilydd. Doedd dim Gareth heb Rol, a doedd dim Rôl heb Gareth. Roedd y ddau'n mwynhau profiadau bywyd gyda'i gilydd gan gynnwys mynd i'r Eisteddfod, Royal Welsh, allan ar y penwythnosau a thripiau efo'r garafán i Aberdaron i enw rhai. Roedd y ddau yn dîm da, yn fêts, yn bartneriaeth, yn deall ei gilydd i'r dim.

Bu Gareth yn ffodus o gael gweld nifer o lwyddiannau Sioned, ei ferch neu Dr Sioned Fôn Jones erbyn hyn. Roedd Gareth wedi gwirioni pan glywodd bod Sioned wedi ei henwebu i dderbyn Medal anrhydeddus Potts ym mis Mai 2023. Nid unrhyw un sy'n ennill y fath anrhydedd. Yr olaf i'w hennill oedd y dyn a ddyfeisiodd brechlun Pfizer! Mwynhaodd Gareth Sioned yn traddodi ei darlith ymchwil yno ac roedd yn ei ddagrau mor falch ohoni.

Yn anffodus, profodd Gareth drawma eithriadol bron i 8 mlynedd yn ôl pan gafodd gancr am y tro cyntaf . Newidiodd hynny'r ffordd yr oedd yn gweld pethau. Doedd o ddim yn poeni'n ormodol am bethau nad oedd yn bwysig, ac roedd yn gwerthfawrogi popeth. Roedd yn ddiolchgar iawn i roddwr arbennig o'r Almaen a roddodd gelloedd bonyn iddo gan gynnig ail siawns ar fywyd: heb hynny, ni fyddai wedi cael y blynyddoedd arbennig a gafodd wedyn. Diolch i elusen Anthony Nolan am eu hymchwil a'r holl waith a wnaethant i ddod o hyd i'r 'match' eithriadol bryd hynny.

Torrwyd y newyddion drwg i Gareth bod y cancr wedi dychwelyd yng Ngorffennaf 2022 ac nad oedd modd cael trawsblaniad arall. Ymchwiliodd Sioned, Luned a Roland a Gareth i bob math o driniaethau, chwilio am arbenigwyr ar draws y byd i gyd, trio dietegau a 'juices' amrywiol, darllen llyfrau dirifedi a gwrando'n astud ar arbenigwyr yn Christies, Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd. Roedd Eric, Tad Gareth yn graig o gefnogaeth drwy'r cyfan ac yn gweddïo i rywbeth weithio. Er gwaethaf ei salwch, fe gariodd Gareth ymlaen yn ddewr i'r pen gan fwynhau bywyd i'r eithaf. Roedd ganddo'r egni a'r stamina mwyaf anhygoel, a hyd yn oed pan oedd yn dioddef ac mewn poen, ychydig iawn oedd Gareth yn gwyno. Roedd ganddo'r gallu a'r cryfder mwyaf anhygoel i ddyrchafu a gwella gan "fownsio yn ôl" fel oeddem yn ei ddweud a hynny bob un tro, tan y tro olaf.

Cafodd Gareth fis cyfforddus iawn ar Ward Alaw, ac roedd wastad yn brolio'r gofal yr oedd yn ei dderbyn, ac yn ddiolchgar ofnadwy iddynt. Hoffai Rol, Sioned, Eric a Luned ddiolch yn fawr i'r holl weithwyr iechyd ar draws Ysbyty Gwynedd, Glan Clwyd a'r Christie am bob gofal o Gareth ac am drio bopeth oedd yn bosibl. Hoffent hefyd ddiolch i bawb am eu haelioni a'u caredigrwydd yn ystod eu galar: bu'r cyfan gymaint o gysur, nerth a chymorth iddynt. Diolch hefyd i'r ymgymerwyr, Roberts ac Owen, Penygroes am eu cefnogaeth a'u gwasanaeth anhygoel. Bydd y rhoddion a gasglwyd yn cael eu rhannu rhwng elusen Anthony Nolan, Gwasanaeth Gwaed Cymru a Ward Alaw Ysbyty Gwynedd.


ECO'r Wyddfa
www.ecorwyddfa.co.uk

E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

COFFÂD

# Richard Ian Oliver (Ianc)

Ganed Richard Ian Oliver (64 Bron y Garth, Caernarfon) ar Fai 12fed, 1934, yr ieuengaf o bedwar o blant i Richard a Gwen Oliver yn rhif 3 tai Pen Clip, Waunfawr; brawd Douglas, Vincent ac Eunice. Cyfeirir yn aml at rywun dymunol a chyfeillgar fel ‘andros o foi iawn’; a dyna’n sicr oedd Ian (neu ‘Ianc’ i’w ffrindiau). Un o 'Feganifs' y Waunfawr; ac er iddo dreulio'r rhan fwyaf o'i fywyd yng Nghaernarfon, roedd ei galon dal yn ddwfn ym mhentref y Weun.

Roedd tai Pen Clip gyfochrog â siop a becws fy rhieni, a byddai Ian pan yn llefnyn yn galw heibio'r becws ambell fore i gael ‘cacan yn syth o'r popty’. “Ew, un dda oedd dy fam am 'neud teisan”, meddai. “Cofio un bora, a finna'n hen hogyn barus yn stwffio teisan gyfa i ngheg, heb sylweddoli fod y jam yn ei chanol dal yn boeth. Mi losg’is fy nhafod nes roedd o'n fflamgoch, a dy fam druan yn rhedag i nôl mygiad o ddŵr oer o'r tap i mi. Mi ddysgis wers ar ôl hynny i beidio bod mor farus!”

Yn ystod y pumdegau cynnar, ymadawodd y teulu â Phen Clip ac ymgartrefu yn rhif 8 Bryn Goleu yn y pentref. Roedd Richard (Dic) ei dad yn dipyn o farbwr, a byddai nifer o ddynion yn galw heibio 'nymbar 8' yn aml i gael cyt a shêf!

Un o hoff bleserau Ian oedd pêl-droed, ac roedd 'tîm ffwtbol' Caernarfon yn agos iawn at ei galon. Bu'n ddilynwr brwd o'r Caneris am flynyddoedd, ac ar wahân i chwarae iddynt bu hefyd yn hyfforddi a helpu i ddatblygu rhai o'r chwaraewyr ifanc at y dyfodol. Ef hefyd oedd un o'r gwirfoddolwyr a adeiladodd wal frics yr eisteddle tu ôl i gôl yr Hendre yn yr Oval. Roedd yn gefnogwr brwd o dîm pêl-droed Middlesborough, ac un o’i arwyr oedd seren y tîm hwnnw yn y 1950au, yr enwog Brian Clough. Roedd ganddo datŵ ar ei fraich â llun peldroediwr mewn crys coch ac 'Up the Boro' mewn ysgrifen las odditano.

Dyn hawddgar a chymwynasgar oedd Ian bob amser, yn enwedig pan fyddai pêl ledr un o'r hogia wedi mynd yn fflat. 'Ianc' oedd yr achubwr bob tro, gyda'i bwmp beic yn chwythu gwynt i'w bol a chlymu'r careai yn dynn. Yntau wedyn yn bowndio'r bêl ar y llawr a dweud, “Dyna chdi! am y cae 'na rŵan i sgorio pentwr o gôls!”

Yn dilyn eu priodas, ymgartrefodd Ian a Helen am gyfnod yn y Bontnewydd, cyn symud i Gaernarfon. Roedd colli Helen yn nydd ei nerth yn ergyd aruthrol iddo, ond gyda chymorth a chefnogaeth y plant a gweddill y teulu llwyddodd i gario mlaen â'i fywyd.

Briclear oedd Ian wrth ei alwedigaeth, a bu'n gweithio am gyfnod i gwmni adeiladu Jones Brothers, Bontnewydd. Cydweithiwr a chyfaill bryd hynny oedd y diweddar Idris Evans, neu 'Tarw Nefyn' fel y’i gelwid yng nghylchoedd pêl-droed y Gogledd. Un stori y byddai Ian yn hoff o'i hadrodd oedd yr un am Idris ac yntau’n mynd ‘i gicio pêl’. “Bob amsar cinio, mi fydda Idris a minna'n mynd am 'gic-abowt' bach efo rhyw hen bêl blastig wedi byrstio. Finna'n driblo ac Idris yn taclo, a'r hannar awr ginio ran amla wedi mynd yn awr a mwy. Cofio'r ddau ohonom un tro yn 'wrestlo' am y bêl, a fynta'n rhoi hergwd i mi efo'i ysgwydd nes mod i ar fy hyd mewn ffoes. Idris yn chwerthin yn braf a gweiddi, “Côd y diawl!” a finna ar wastad fy nghefn yn wlyb fel sbangi! Meddylia amdana i'n trio gosod brics wedyn â thrôns fel cadach tamp am fy nhîn!” Yn ddiweddarach ymadawodd Ian ac Idris â'r cwmni a mynd i weithio i Gyngor Bwrdeistref Arfon yn y dre, lle bu'r ddau am flynyddoedd hyd at eu hymddeoliad.

Roedd ganddo feddwl mawr o’r diweddar Barchedig Hugh Hughes, ficer y plwyf a fu farw ym 1958. “Hen beth ffeind oedd Huws Person!” chwedl yntau. “Pan fyddai'n mynd a bloda ar fedd y teulu yn y Betws, mi fyddai'n gofalu rhoi bwnsh bach ecstra ar fedd ’rhen Huws a hel y mwsog oddi arno, ran parch iddo!”

Mi ddois wyneb yn wyneb ag Ian un pnawn Sadwrn yng Nghaernarfon. Roedd olwyn fawr ffair ar y maes, a dyn boliog mewn 'shorts' llaes yn annog pobl i fynd arno am “*Three pounds a ride!*” Meddai Ian, “Gwranda, sgin ti ffansi dŵad efo fi ar y 'big whîl?” Minnau'n gyndyn o fentro, ond yntau'n fy mherswadio. “Tud-laen, awn ni arni am hwyl!” Y ddau ohonom yn dringo i'r sedd a gafael yn dynn yn y bar diogelwch, a'r olwyn yn dechrau troi’n araf am yr awyr. Cyrraedd y top, a'r olwyn yn arafu a dod i stop. Ninnau'n chwerthin yn drybola, ac meddai Ian, “Wst'i be? llathan yn uwch a mi fasa ni yn y nefoedd!”

O gofio’i eiriau ar y 'big whîl' y pnawn hwnnw, mae'n anodd credu fod un mor arbennig ag Ian wedi’'n gadael a mynd, chwedl yntau, “llathan yn uwch i'r nefoedd!”

Gŵr caredig, cydwybodol a chymwynasgar a chyfaill mynwesol, dyna oedd 'Ianc,' ond yn fwy na dim yn “andros o foi iawn!” Priod annwyl y ddiweddar Helen Medwen, tad arbennig Gwyneth, Vernon, Susan a Vincent a thad-yng-nghyfraith hoff Kevin, Joanne, Gareth a Janneen; taid a hen daid addfwyn Kevin, Luke, Elli, Cari, Owen ac Ela Medwen. Bu farw yng nghartref High Pastures, Deganwy, yn 89 mlwydd oed. Diolch amdano.

**Mois**

## CAEATHRO

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc y pentref yn dilyn eu llwyddiant diweddar yn yr arholiadau ysgol a phrifysgol. Gobeithio i chi fwynhau’r seremonïau graddio!

**Capel**

Bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths ar y 1af o Hydref i gychwyn am 2:00PM.

Ar y 15fed o Hydref, bydd Gwasanaeth Undebol yn cael ei gynnal yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda i gychwyn am 10:00AM, dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths. I ddilyn am 2:00PM, bydd Gwasanaeth (yn cael ei gynnal yng Nghanolfan y Capel) dan arweiniad Mr Richard Morris Jones.

Cofiwch fod Canolfan y Capel ar gael i’w llogi (yn ôl yr arfer) ar gyfer amryw o ddigwyddiadau neu ar gyfer Cymdeithasau. Mae’r cyfleusterau sydd ar gael yn hwylus a modern, i gynnwys cegin weithredol, neuadd ac offer, toiledau a mynediad sydd yn addas i gadeiriau olwyn a phramiau babanod. Mae’r telerau a’r costau yn rhesymol a chystadleuol. Mae croeso i chi gysylltu trwy e-bost ar canolfanycapel@btinternet.com am fwy o wybodaeth, neu drwy gysylltu gyda Llywydd y Mis – bydd y manylion priodol ar Hysbysfwrdd y Capel.

**Mynwent y Capel**

Diolchwn am y rhoddion ariannol diweddar tuag at gronfa cynnal a chadw’r Fynwent. Mae’r Swyddogion yn ddiolchgar am unrhyw rodd. Petaech yn dymuno cyfrannu, mae modd gwneud hyn trwy law unrhyw un o’r Swyddogion – manylion ar gael ar yr Hysbysfwrdd.

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cydymdeimladau dwysaf at Mair Evans (Rhyddallt Ganol) a’r teulu yn dilyn marwolaeth Helen Roberts (Sŵn Y Gwynt), Mam, Nain a hen Nain annwyl. Estynnwn ein cydymdeimladau dwysaf hefyd at Evina Hughes (7 Erw Wen) a John Jones (Garreg Lwyd) yn dilyn eu profedigaethau.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Elizabeth (Bet) Owen, o 26 Llwyn Beuno, Bontnewydd. Roedd Bet yn aelod ffyddlon yn y Capel ac yn mynychu Oedfaon yn rheolaidd. Cydymdeimlwn gyda’r teulu a ffrindiau oll.

**Pen-blwydd Arbennig**

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Dafydd Iwan (Carrog) wedi iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar - pob hwyl gyda’r dathlu!

**Croeso**

Croeso cynnes i berchnogion newydd 2 Erw Wen i’r pentref – gobeithio eich bod wedi setlo a phob hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd.

# Crwydro gerddi

**TREFNANT BACH (NGS)**

Doedd dim rhaid crwydro yn bell iawn i ymweld â'r ardd fuom ni'n ymweld â hi'r tro hwn. Croesi Pont Brittannia a throi trwyn y car tuag at Llanddaniel. Roeddwn wedi gweld bod gerddi Trefnant Bach ar agor trwy gynllun yr NGS (National Garden Scheme), mudiad sy'n cyfrannu arian at amrywiol elusennau megis Marie Curie, Cefnogaeth Cancr Macmillan, Parkinson's ac amrywiol erddi megis Gerddi Botaneg Genedlaethol Cymru. Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am y mudiad yma ar ngs.org.uk/beneficiaries

Y cyfeiriad roeddem yn anelu tuag ato oedd Trefnant Bach, Gwenyn Môn, Llanddaniel Fab. Beth oedd wedi tynnu fy sylw wrth benderfynu ymweld oedd bod Dafydd a Dawn Jones, y garddwyr hefyd yn cadw gwenyn, ac mi fydda'i wrth fy modd yn cael mêl ar fy nhost i frecwast. **1**

Pan fyddwch yn ymweld â gerddi fel hyn, mae popeth wedi ei drefnu'n ofalus, gyda'r perchnogion ar gael am sgwrs a gwirfoddolwyr o'r NGS yn helpu. Mae lôn fach hir a chul yn arwain at Drefnant Bach ac roedd un gwirfoddolwr wrth y giât lôn ac un arall yn y maes parcio, efo 'walkie talkies' yn anfon ceir i un cyfeiriad er mwyn osgoi trafferthion bagio a strachu petasai dau gar yn ceisio pasio'i gilydd. Roedd y maes parcio'n hwylus wrth ymyl y tŷ a choeden handi efo arwydd 'reserved arni, i bobl anabl gael parcio. **2**

Roedd arwyddion yn dangos ble roedd gwahanol elfennau o'r ardd ac enwau ar rai o'r planhigion (sy'n help garw os dydach chi ddim yn siŵr o be' 'di be'). **3 – 6**

Mae'n debyg mai un o'r un pwysicaf oedd hwn **7**

Tra roedd yr arwydd yma'n cyfuno gwybodaeth am y blodau a pa ffordd i fynd! **8**

Gallwch ymweld â safle gwe Dafydd ar dafydd@angleseybees.co.uk lle mae'n disgrifio'r tyddyn mae o a'i wraig yn ei gadw. Yn ogystal â chadw gwenyn maent yn cynnal cyrsiau o sut i gadw gwenyn. Hefyd mae ganddynt braidd o ddefaid Swydd Amwythig (*Shropshire*) ac yn rheoli coedlan gymysg, ar gyfer tanwydd a chreu cynefinoedd. Yn sicr wnes i sylwi bod toriadau'r lawntydd yn cael eu defnyddio fel taenbridd (mulch) i lawer o'r coed ac roedd tomenni o goed i'w gweld wrth ymyl y llyn. **9**




1


2



4


5



3


6


7



8


9


10


11


12


13

Maent yn tyfu ffrwythau a llysiau iddyn nhw eu hunain a'u gwesteion gwely a brecwast a glampio ac fel y gwelwch chi mae'r gwenyn yn hynod ddiwyd yn peillio'r mafon. Enghraifft dda o'r ardd yn darparu bwyd i'r gwenyn a'r gwenyn yn hyrwyddo gwaith y garddwr. **10 - 12**

Rhaid dweud roedd y cwt bugail yn edrach yn hynod o gysurus! **13**

Roedd llwybrau wedi eu torri drwy'r gwair hirach oedd yn igam ogamu tuag at grŵp o gychod gwenyn. **14 - 17**

Yn 2019 plannwyd coedlan er budd y gwenyn mel - coed megis - gwern, ysgaw, ceirios gwyllt, ceirios yr adar, draenen wen, derw, afalau surion, bedw cnau Ffrengig a choed castan. Mae'r



14




15



16



17



20



21



18



19



22



23

amrywiaeth hyn yn cyfoethogi'r bwyd ar gyfer y gwenyn mêl ac yn creu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt megis y draenog, wiwer goch, gwenci, bwncath, barcud coch, llyffant a llyfant melyn a'r fadfall. Bydd hefyd ymhen 10 mlynedd yn darparu coed tân a phren pan gaiff y coed eu teneuo a phrysgoedio.

**18 - 20**

Mae rhai planhigion a blodau hefyd i'w gweld yn yr ardd, sydd eto wedi eu dewis fel rhai sy'n ddeniadol i'r gwenyn.

Bore difyr iawn o grwydro, Roedd yr awyr yn eithaf llwyd a bygythiol wrth i ni gychwyn ond fe ddaeth yr haul allan at ddiwedd ein crwydr ac wrth i ni gael paned a thamaid o deisen hyfryd. **21 - 23**

Edrach ymlaen at gael y mêl ar fy nhost ryw fore ac mae'n siwr bydd y gwenyn yn brysur ar y sedum yn yr ardd acw pan fyddai adref a dim ar grwydr!

# Cyngor Cymuned Llanrug

## CYNGOR CYMUNED LLANRUG MEHEFIN 2023

**1. Derbyn Croeso gan y Cadeirydd**
Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**2. Cadarnhau cofnodion Cyfarfod 16eg Mai, 2023**
Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**3. Unrhyw fater yn codi o Gofnodion Cyfarfod 16eg Mai 2023.**
Adroddwyd fod y goeden er cof am y diweddar Charles Jones wedi gafael yn dda a bod y graffiti ar y fainc wedi ei lanhau.

**4. Derbyn cyflwyniad gan Gymdeithas Tai Grŵp Cynefin ar Arolwg Anghenion Tai Llanrug**
Derbyniwyd cyflwyniad gan Mari Tudur, Hwylusydd Tai Gwledig ar waith maent yn ei wneud yn Llanrug ar gyfer adnabod anghenion tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol.

Bydd hyn yn cael ei wneud drwy

- Anfon llythyr at bob aelwyd o fewn yr ardal Cyngor Cymuned yn eu gwahodd i gwblhau arolwg ar lein.
- Trefnu Diwrnod Agored.

Yn dilyn derbyn yr holl wybodaeth bydd y wybodaeth yn cael ei gyfuno gyda gwybodaeth ffeithiol ar gofrestr Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd a Thai Teg a'i gynnwys o fewn yr Adroddiad Anghenion Tai.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am y cyflwyniad a'r wybodaeth.

**5. Derbyn Adroddiadau Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 12 o Fehefin 2023.

Etholwyd y Cynghorydd Phillip Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 a'r Cynghorydd Ann Lawton yn Is-gadeirydd. Adnabuwyd blaenoriaethau ar gyfer 2022/2023 a bod y pwyllgor wedi gallu eu gwireddu. Ymysg blaenoriaethau'r pwyllgor ar gyfer 2023/2024 adnabuwyd y canlynol.

- Sicrhau fod ein cais i mewn yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn cyn diwedd mis Gorffennaf.
- Parhau gydag asesiad risg.
- Mabwysiadu polisi cofebion.
- Arwyddion i'r giatiau i atgoffa ymwelwyr i gau'r giatiau.
- Placiau yn y gofod.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am y wybodaeth.

**6. Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**
Etholwyd y Cynghorydd Avril Jones yn Gadeirydd y pwyllgor ar gyfer 2023/4 a'r Cynghorydd Phillip Roberts yn is-gadeirydd ar gyfer 2023/2024.

Ymysg yr eitemau a drafodwyd:

- Adolygwyd y gyllideb a phenderfynwyd peidio gwneud unrhyw addasiadau ar hyn o bryd oherwydd mai dim ond yr ail fis ydi hyn o'r flwyddyn ariannol gyfredol.
- Nodwyd fod cyllideb eisoes yn ei le ar gyfer y gliniaduron.
- Amcangyfrifwyd gwariant ar gyfer y fynwent a'r meysydd chwarae yn ystod 2023/2024 ac fe nodwyd fod y gwariant eisoes wedi ei glustnodi yn y gyllideb ar gyfer 2023/2024.
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd a'r clerc i fynd drwy becyn Cymorth cyllid a Llywodraethu gyda'r clerc i adnabod pa bolisïau sydd yn eu lle, pa rai sydd eu hangen a pa rai sydd ddim eu hangen.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**7. Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**
Etholwyd y Cynghorydd Avril Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 a'r Cynghorydd Gwynedd Williams yn Is-gadeirydd ar gyfer 2023/2024.

Ymysg yr eitemau a drafodwyd:

- Cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w hatgoffa o fin baw ci yn Y Bwlch, Cwm y Glo.
- Ein bod yn disgwyl i asesiad risg i gaeau chwarae gael eu cario allan, ac yn dilyn derbyn yr asesiadau, yna trefnu i gyfarfod ar y caeau.
- Adroddwyd fod achos o graffiti ar y fainc yng nghae Pwll Moelyn a bod ein contractwr wedi ei lanhau.
- I gysylltu â Chyngor Gwynedd i drefnu cyfarfod parthed materion trafnidiaeth ger cae chwarae Pwll Moelyn.
- Prynu mwy o Gennin Pedr i'r ardal.
- Parhau gyda'r trefniadau casglu sbwriel.
- Trefnu cyfarfod gyda'r Ysgol Gynradd i sefydlu trefniadau ar gyfer coeden Nadolig 2023.
- Trefnu hyfforddiant deffibs.
- Cerdded ein llwybrau cyhoeddus.
- Paratoi rheolau ar gyfer y meysydd chwarae/parc sglefrio/campfa tu allan.
- Edrych fewn i'r posibilrwydd o allu creu mapiau digidol.
- Tynnu'r ddau fin sydd yn y parc sglefrio a rhoi un newydd amlbwrpas yno a gofyn i Gyngor Gwynedd ei wagio.
- I dderbyn diweddariad ar sefyllfa'r Glymog Siapan.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**8. Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Bwyd a Llesiant**
Adroddwyd fod tipyn bach o newid wedi bod i'r rhai oedd yn derbyn bwyd. Rhai wedi tynnu allan o'r cynllun gan ddweud eu bod yn ddiolchgar iawn o'r cymorth mae'r cynllun wedi gallu ei roi iddynt.

Byddwn yn cyfarfod a Chyngor Gwynedd i wneud cais am grant.

Parhau i brynu wyau a bara a'r arian sydd wedi ei glustnodi o'r grant gyfredol.

Cyfarfod i'w drefnu gyda rheolwyr Fairshare Merseyside i drafod yr anghydfod.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**9. Derbyn Adroddiad ar y cyd** oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef Aelodau dros Gwm y Glo a Llanrug ar Gyngor Gwynedd

**10. Ceisiadau Cynllunio**
a) Rhif y cais: C23/0370/23/RA
Diwygio amod 2 ar ganiatâd cynllunio C21/0270/239/DT er mwyn lleihau maint yr estyniad unllawr yn unol â›r cynlluniau diwygiedig. 1, Tai Hermon, Llanrug.
Penderfynwyd: Cefnogi'r cais.

b) Rhif y cais: C23/0136/23/TC
Parhau i ddefnyddio tir heb gydymffurfio ag Amodau 3 ac Amod 4 o ganiatâd cynllunio cyfeirnod 3/23/174C.Maes Carafanau Twll yn Clawdd, Llanrug
Penderfynwyd: Dim sylw.

c) Rhif y cais:C23/0423/23/LL
Adeiladu estyniad deulawr talcen a porth. Gwaith adfer mewnol i dy presennol. Dymchwel porth presennol a 'lean-to'. Adeiladu swyddfa gardd. Erw Fair, Cwm y Glo.
Penderfynwyd: Cefnogi'r cais ond sicrhau fod y defnydd yn aros fel Swyddfa Gardd ac nid yn cael ei droi yn anecs ar gyfer gwyliau.

d) Rhif y cais: C23/0394/23/RA
Rhyddhau amod 5 (edrychiad allanol) ar ganiatad cynllunio C21/1132/23/DT. Pen y Graig, Lon Ceunant, Ceunant.
Penderfynwyd:Dim gwrthwynebiad.

e) Rhif y cais: C23/0359/23/AC
Diwygio amod 2(cynlluniau) ac amod 5 (clwydfan ystlumod) ar ganiatad cynllunio C22/1140/23/DT er mwyn newid dyluniad y clwydfan ystlumod. Awel y Mynydd, Ceunant.
Penderfynwyd:Dim sylw.


HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

## CYNGOR CYMUNED LLANRUG 18FED GORFFENNAF, 2023

**1.Derbyn Croeso gan y Cadeirydd**
Oherwydd nad oedd Cadeirydd y Cyngor yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, cadeiriwyd y cyfarfod gan is-gadeirydd y Cyngor sef y Cynghorydd Avril Jones.

**2.Cadarnhau cofnodion Cyfarfod 20fed MEHEFIN 2023.**
Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**3.Unrhyw fater yn codi o Gofnodion 20 Mehefin 2023**

**4. Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 17.7.2023 ac ymysg yr hyn a argymhellir oedd :-
* Drafftio Polisi Cofebion: drafft i'w gyflwyno yng nghyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor ym mis Awst.
* Parhau gydag Asesiadau Risg( rhestr wirio gan y cynghorwyr) -cyfarfod ar y safle 19.8.2023.
* Cyfarfod nesaf y pwyllgor : Medi 11, 6PM yn y Fynwent. Agenda i gynnwys eitem ar weithredoedd gwyrdd.

**Gweithredoedd eraill**:
*Cyflwyno cais Mynwent y Flwyddyn (erbyn diwedd mis Gorffennaf)
*Plac i'r gofod newydd wedi'i archebu.(cyfarfod yn y Fynwent 27.6.23)

**Cyfarfodydd ymhellach**:
*Torri gwair- cyfarfod gyda'n contractwr torri gwair.
*Trefnu cyfarfod gyda chynrychiolydd Elusen Peris yn y Fynwent parthed yr hysbysfwrdd. (5.45PM - 24.7.23)

**Materion eraill**:
*Wal yr hen Fynwent bellach wedi ei thrwsio.
*Ymddygiad un o drigolion Llanrug.
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**5. Derbyn diweddariad ar Fairshare**
Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ei fod ef, a'r Cynghorydd Beca Brown a'r Clerc wedi cyfarfod â Rheolwyr Fairshare yn Lerpwl i geisio datrys yr anghydfod presennol a'r ffaith fod y cyngor wedi cael eu camarwain gan un o'r cyn-weithwyr.
Adroddwyd ein bod wedi cael croeso cynnes iawn a chafwyd taith o gwmpas y warws i weld eu trefniadau. Roedd y cyfarfod wedi bod yn fuddiol dros ben ac mae'n edrych yn debyg fod datrysiad i'r broblem wedi dod i law.
**Penderfyniad**:Derbyn a diolch am yr wybodaeth.

**6. Derbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones, sef aelodau dros Gwm y Glo a Llanrug ar Gyngor Gwynedd.**
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.


**7. Derbyn adroddiad gan y cynghorydd Hefin Jones parthed deddf eiddo.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd ei fod wedi mynychu cyfarfod wedi ei drefnu gan Gymdeithas yr Iaith ar Ddeddf Eiddo a rhoddwyd crynodeb o'r cyfarfod.
**Penderfynwyd**:
a) Derbyn a diolch am yr adroddiad.
b)Y Cynghorydd Hefin Jones i gysylltu â'r trefnwyr am y ddogfen.
c)Y clerc i'w gylchredeg i'r aelodau ar gyfer trafodaeth ym mis Awst.

**8. CEISIADAU CYNLLUNIO**
a) Rhif y cais:C23/0425/23/DT
Estyniad cefn deulawr ynghyd a newid to'r modurdy presennol i do crib wedi ei orffen gyda llechi.. Gwêl Afon, 4, Tai Crawia, Llanrug.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
b) Rhif y cais: C23/0511/23/LL
Adeiladu mynedfa gerbydol "gloch" dros dro (am hyd at 12 mis) gyda leiniau gwyn a seilwaith cysylltiedig, i gefnogi cynllun ehangach amnewid Cebl Pentir Dinorwig. Land off A4086, Cwm y Glo, LL55 4EE.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
c) Rhif y cais: C23/0358/23/DT
Dymchwel estyniad yn cynnwys baddon ac ystafell aml bwrpas ac adeiladu ystafell wely gyda baddon, cegin ac ystafell fyw. Codi paneli haul ar ddaear(14 panel). Gosod tanc septig newydd. Pant Bryn Gwyn, Ceunant.
Penderfynwyd: Cefnogi'r cais.







# Garddio

## HYDREF

Mehefin poeth, ond siom fu'r tywydd ym mis Awst a mis Medi, glaw a fawr o haul er bod rhai gwledydd yn Ewrop a thu hwnt yn gweld tymheredd hynod o boeth fu'n creu llu o broblemau. Wrth gwrs pan ddaeth hi'n ddechrau Medi ac yn amser i'r plant fynd yn ôl i'r ysgol, daeth y tywydd braf, digon o haul a llwch o'r Sahara! Er gwaethaf pawb a phopeth (siŵr bod yna gân yn fanno) parhaodd ein gerddi i dyfu a llonni ein calonnau. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i ni i gyd, oherwydd cynhesu byd eang, ac yn ei sgil, newidiadau hinsoddol, addasu ein harferion garddio i'r dyfodol i gyd-fynd â'r newidiadau hyn.

Un o fy hoff bethau yn ystod yr hydref, yw cerdded drwy ddail sychion, a'u clywed yn crensian o dan fy nhraed, ond doeddwn i ddim yn disgwyl gwneud hynny ddiwedd mis Awst!



**Plannu bylbiau**

Yn unol â'r cyngor a roddwyd yn rhifyn diwethaf yr Eco, gobeithio cawsoch chi gyfle i blannu'r bylbiau sydd wedi eu paratoi i flodeuo erbyn y Nadolig, ddechrau mis Medi, pethau fel yr *hyacinth, amaryllis* a'r cennin pedr '*Paper White*' a '*Grande Soleil d'or-*'. Cofiwch eu rhoi mewn lle oer a thywyll. Rydw i wedi dilyn cyngor Monty Don ar '*Gardener's World*' eleni ac wedi plannu'r holl fylbiau hyacinth mewn un bocs. Pam? Wel fydda'i wedyn yn gallu eu symud i botiau llai yn unol â faint o dyfiant sydd ym mhob bwlb. Fel arfer mae rhai'n tyfu'n dda a rhai ar ei hôl hi, felly allai eu trosglwyddo i botiau llai yn ôl maint tyfiant pob un, bydd hynny'n creu anrheg well i ffrindiau a theulu. Fydda'i dal angen cadw golwg arnynt yn y cwt, a chofio eu dyfrio rŵan ac yn y man. Pwy ddudodd bod garddio'n hawdd?

Os nad ydych wedi plannu bylbiau ym mis Medi, dim ots, plannwch fylbiau o bob math ym mis Hydref, tra bod y pridd yn dal yn gynnes a phlannwch y tiwlipau ddiwedd mis Tachwedd. Dwi'n croesi fy mysedd y bydd gen i lun o '*nerines*' yn eu blodau acw ym mis Hydref/ Tachwedd, amser a ddengys.

**Creu lawnt**

Mae mis Hydref yn amser da i hadu lawnt newydd neu i osod tywyrch os ydach chi am greu lawnt newydd yn gyflymach! Efallai bydd angen dyfrio os fydd hi'n sych. Os oes ganddoch lawnt yn barod, bydd angen ei thorri gan osod llafnau'r peiriant yn eithaf uchel, anelwch at gael tua 3'' o dyfiant dros y gaeaf. Ceisiwch gadw pawb oddi ar y lawnt dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf (er does gen i'm syniad sut i esbonio hynny i'r gath goch acw) a chasglu dail sydd wedi disgyn arni (ond gallwch adael ambell i bentwr i fod o fudd i fywyd gwyllt efallai?).

**Compost a deilbridd**

Mae'r bocs llawn dail fu drwy'r hŵfyr (darnau bach) llynedd, bellach wedi torri i lawr yn ddeilbridd (*leaf mould*) ond mae angen dipyn mwy o amser ar y bocs a lenwyd â dail o'r coed. Bydd y deilbridd (dim ots faint o amser mae'n cymryd i'w greu) yn hynod ddefnyddiol yn yr ardd fel taenfa (mulch) o gwmpas planhigion ychydig yn fwy tyner ac fel ychwanegiad i gyfoethogi'r compost o'r ganolfan arddio. Mi ydw i'n creu compost efo pob math o wastraff gardd gwyrdd a brown mewn bocs sy'n troelli, gan nad oes gen i le i greu peth fel arall, efallai nad yw'n fawr ond mae'n well na dim.

**Cyffredinol**

Mae'n amser i dorri hen dyfiant coediog i lawr at y bonyn. Bwydwch y camelia, tri lliw ar ddeg (*hydrangea*) a rhododendron â gwrtaith arbennig i flodau sy'n hoffi pridd asid.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn chwynnu a chlirio llwybrau er mwyn iddynt gadw'n daclus dros y gaeaf a rhag i chithau lithro os bydd rhew ymhellach ymlaen. Mae mwsog yn tyfu'n dda yma, felly mi fyddai'n ei frwsio/grafu oddi ar y llwybrau bob cyfle ga'i.

Gosodwch fandiau saim (*grease bands*) o gylch coed ffrwythau ac os ydynt mewn potiau fel y rhai acw, rhowch daen o risgl/naddion pren '*wood chip*' ar yr wyneb i'w cadw'n ddiddos dros y gaeaf.



Fel mae planhigion yn darfod, gallwch glirio cansenni a dalwyr o'r ardd. Tynnwch nhw o'r pridd, sychwch neu golchwch unrhyw bridd sydd arnynt a gadwch i ddalwyr pren a chansenni sychu, cyn eu storio mewn sied neu garej.

Os oedd eich planhigion tŷ allan dros yr haf, dyma'r amser i ddod a nhw'n ôl i'r tŷ dros y gaeaf. Cofiwch edrych o dan bob un ac o fewn i unrhyw ddaliwr i sicrhau nad oes malwod neu unrhyw beth nad ydach chi am ei groesawu i'ch cartref yn cuddio.

Eleni dydw i ddim am drio plannu tatws newydd yn y tŷ gwydr, gan fod yr ardd dros fil o droedfeddi i fyny yn Eryri, a dydw i byth yn cael mwy na llond powlen fach o datws o faint marblis (neu lai) felly does dim pwynt. Ond mi ydw i am drio gaeafu planhigion rydw i wedi eu lluosi o'r rhai sydd eisoes yn yr ardd rhai perlysiau ac ambell botyn o hadau sydd wedi egino ond heb dyfu'n ddigon mawr i fynd allan.

Dysgu trwy brofiad - wnaeth y 'radicchio' ddim llwyddo llynedd, ond mi ydw i wedi rhoi cennin i mewn eleni, gan groesi bysedd y byddan nhw ac ysgall ddail yr enfys (*rainbow chard*); cabaits coch ac ysgewyll piws (peidiwch â gofyn!) yn dyfal barhau.

Dyma gyfle i wneud yn fawr o dywydd heb fod yn rhy oer i lanhau a hogi eich offer gardd, cyn eu cadw dros y gaeaf. Cofiwch lanhau'r potiau hefyd os ydych am eu hail-ddefnyddio yn 2024. Mi fyddai'n golchi ac ail-gylchu celloedd plastig sy'n dal 6 neu fwy o blanhigion a phob maint o botiau i'w ail-ddefnyddio. Ond mae modd mynd â photiau plastig, nad ydach eu hangen i ganolfan arddio, heb fod ymhell o fro'r Eco, os nad ydach chi angen mwy. Gallwch felly arbed arian a/neu arbed y blaned.

**Bywyd Gwyllt**

Os ydach chi'n ddigon lwcus i gael draenog(od) yn ymweld â'ch gardd gallwch helpu eu paratoi i aeaf gysgu trwy roi bwyd draenog pwrpasol neu fwyd tun ci neu gath iddyn nhw (DIM llefrith mae o'n eu gwneud nhw'n sâl).



Os na chawsoch chi gyfle i wneud ddiwedd mis Medi, cofiwch wagio unrhyw focsys nythu sydd yn eich gardd, hyd yn oed os na fu cywion yno, weithiau mae pâr yn dechrau casglu deunydd nythu ac yna'n newid eu meddyliau. Bydd hefyd yn rhoi lle glân i adar bach glwydo yn nosweithiau hir ac oer y gaeaf.

***Rhosyn Mynydd***

# Ar ben arall i'r lein

Mae'n sicr eich bod wedi mwynhau gwyliau'r haf, yng nghanol y glaw a'r gwynt, ond i'r pysgotwyr mae'n hawdd iawn cael gormod o beth da; i ni wrth gwrs tywydd gwlyb ydi hynny. Ac felly mae hi wedi bod drwy'r rhan fwyaf o fis Gorffennaf ac Awst. Tydi rhai yn anodd i'w plesio rwy'n clywed rhai'n dweud. Wel, wrth gwrs, fel yna rydym ni oll fel 'sgotwrs ynde. Gormod o dywydd braf – "da i ddim"; gormod o dywydd gwlyb – "wel eto, da i ddim". Mae'r hen dywydd braf, sych yn cadw'r eog a'r gwyniadau yn y Fenai, a phan mae gormod o lifogydd mae'r pysgod mudol yma'n gwastraffu dim amser yn rhedeg yr afonydd am y llynnoedd.

I gael pysgota da yn y Saint, mae hen, hen ddywediad yn y fro yma'n dweud fod angen tri llif yn Awst i gael y pysgod i redeg, ac ar y trydydd llif maent yn setlo i lawr yn y pyllau; ond oes tri neu bedwar llif wel, yna does dim setlo, a mae eu bryd yn unig ar gyrraedd dyfnder Padarn. Tydi y fan honno ddim yn rhyw le delfrydol i loetran chwaith, gyda'r holl chwyn a budreddi sydd o gwmpas y lle. Fodd bynnag dyna oedd ar fy mryd pan es i ar y cwch unwaith eto i drio am y torgoch. Mi rydwi wedi ymuno â'r byd technolegol o'r diwedd gan fy mod yn defnyddio darganfyddwr pysgod – un da ydi o hefyd. Clywais rai'n dweud "Paid a chadw'r canlyniadau i ti dy hun! Be wnes di ei weld ar y peiriant?" Ydi, mae'n agoriad llygaid ar ddyfnder y llyn, hefyd heigiau o bysgod bach yma ac acw. Torgoch meddwn wrthyf fy hun; felly, allan â'r gêr i'r dyfnder. Ond y siom fawr gefais oedd ond draenogiaid bach ddaeth am yr abwyd, dim torgoch o gwbwl, er fy mod wedi clywed fod rhai o'r pentref yn cael ambell i un. Felly yn ôl at y darganfyddwr.

Be arall felly oedd i'w weld o gwmpas y Llyn? Un peth oedd yn amlwg: bod y tyfiant o'r chwyn ymledol wedi lledu'n ofnadwy i rannau eraill o'r Llyn, Pen-llyn, Bae Craig y Fulfran, Y Glyn ac ymlaen heibio lle Dafydd Taff, i fyny a heibio'r Landing. Hefyd roedd tameidiau mawr o'r chwyn yn fflôtio ar wyneb y dŵr, mi oedd gwreiddyn hwn yn amlwg gan fod cwch pleser Seren y Wyddfa wedi ei angori yng nghanol gwely enfawr o'r tyfiant gyferbyn â Chlwb y pentref. Felly, un tro ar y peiriant, a sydd ddim eisiau egluro ymhellach be oedd gwreiddyn y chwyn ar wyneb y Llyn.

Er hyn i gyd, mae rhyw lygedyn o oleuni ar y gorwel efallai, oherwydd be arall wnaeth yr hen ddarganfyddwr ei ddatgelu oedd bod nifer fawr o eogiaid/gwyniadau mawr wedi rhedeg i'r Llyn. Dyma'r nifer fwyaf dwi 'di weld yma ers blynyddoedd lawer. Maen nhw'n gorwedd yn eu llecynnau arferol ble mae'r dyfnder rhwng chwech a deuddeg troedfedd, a dyma'r union lefydd ble mae'r chwyn ar ei anterth. Felly mae'r hen bysg yn gorwedd wrth ochr y chwyn, ac felly mae'n amhosib trio amdanynt. Felly pob lwc iddynt.

Buasai rhywun yn meddwl fod problemau yn



Chwyn ymledol ar wyneb y llyn



Seren yr Wyddfa yng nghanol y chwyn

ymwenud â Llyn Padarn ac arllwysio carthffos i'n hafonydd yn ddigon i ni fel Cymdeithas ymdrin â hwy. Ond na, nid dyna ei diwedd! Mae'r ardal wedi gorfod dioddef gyda'r gwaith a systemau rheoli taffig ar ffordd Llanberis sy'n ymwneud ag uwchraddio gorsaf gynhyrchu trydan Dinorwig. Rhan hafodol o'r gwaith yma yw rhedeg y gwifrau mewn pibellau fydd yn rhedeg dan Afon Rhythallt ym Mhen Llyn a Stablau. Tydi'r gwaith yma ddim i fod i amharu ar ddyfroedd yr afon, ond dim fel yna mae pethau wedi troi allan! Heddiw, sef 5ed Medi, cefais alwad fod rhywbeth mawr o'i le rhwng y ddwy bont ym Mhen Llyn. Mae'n amlwg fod y gwaith drilio i osod y pibellau wedi mynd oddiwaered drwy fod gweddillion, o ganlyniad i'r gwaith oddi tan yr afon – yn lle cael ei gario allan o'r gwaith, wedi ei chwythu i fyny drwy wely'r afon oherwydd y pwysau anaturiol. Canlyniad hyn yw bod 'plume' mawr o glai yn llygru'r afon. Rydym yn disgwyl canlyniadau archiyliad gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Cawn weld be ddaw. Tydi'n rhyfedd o beth nad ydi'r fath broblem ddifrifol na thrafferthion Llyn Padam yn denu sylw unrhyw un o'r cyfryngau, ond bod geifr gwyllt ym Mharc Padam wedi cael tipyn o sylw am eu bod wedi cael blas ar ryw ardd neu ddwy o gwmpas y lle. Rhyfedd sut mae pethau'n gweithio, yn tydi?


Ar nodyn mwy positif, cynhaliwyd 'Game Fair' Cymru ar Stad y Faenol ar y 9fed a'r 10fed o Fedi. Roedd gan y Clwb stondin yno i roi hysbys i'r Gymdeithas, gydag aelodau'n arddangos clymu plu a chynnal sesiynau cyflwyniad i gastio pluen. Yn ystod digwyddiadau 2022, roedd y sesiynau yma'n hynod o boblogaidd. Roedd yn gyfle o bosib i rai ddechrau arni, ond yn gyfle hefyd i hen ddwylo gael rhoi tipyn mwy o sglein ar ddefnydd o'r enwair.

Un peth sydd ddim yn newid o gwbl yw'r potsio sy'n mynd ymlaen ar ein hafonydd a llynnoed. Mae hyn yn epidemig, nid yn lleol ond led-led y Gogledd. Y pryder yw fod dim yn cael ei wneud, a bod yr holl beth yn cael ei anwybyddu gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'r Heddlu. Mae rhai o'n haelodau wedi trio cysylltu, yn enwedig â'r heddlu, ond heb hyd yn oed gael cydnabyddiaeth o'u galwadau. I ble 'rydym yn mynd gyda pheth fel hyn tybed? Beth am y rhai sy'n ein cynyrychioli yng Nghaerdydd a neuaddau cynghorau led-led y wlad? Dim o'r fan hono chwaith! Cyfraith a threfn yn cael ei hanwybyddu'n llwyr yn ôl pob golwg.

Crwydro tipyn i fro Lleu, a phryderon ar waelod y Llyfni, sef ar ein tir sy'n rhedeg o bont Ffordd Pontllyfni i'r môr. Lle hyfryd sy'n boblogaidd i fynd am y traeth. Mae'r Gymdeithas wedi cydweithio â Chyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Clynnog i ddynodi llwybr cyhoeddus ar y rhan yma o'n tir. Wel, fel mae pethau, mae hyn wedi bod yn gamgymeriad mawr gan fod y lle yn ddiweddar yn gorlifo â baw cŵn. Mae rhai pobl yn anghyfrifol dros ben. Na, tydi o ddim yn beth braf iawn mynd i sgota gyda'r nos, a dod yn ôl wedi cerdded drwy rywbeth drewllyd. Mae gan y Gymdeithas gryn lecynnau a thiroedd yn y fro, ac o bosib mae profiad Pontllyfni yn sicr o gael dylanwad ar gydweithio ynghylch mynediad yn y dyfodol.

Dim llawer am y pysgota a'r helfa y mis yma yn anffodus; ond mae wedi bod yn brysur gyda phopeth, fel trefnu ein stondin yn y Faenol a chael trefn ar Felin y Cim a'r llif ymwelwyr.

**Huw Price Hughes**



Harry Wyn, Talysarn yn rhoi Goronwy Roberts, Llanrug ar ben ffordd i gastio yn bell, mae wedi addo o hyn ymlaen bydd padelli Llanrug yn gorlifo â brithyll o Lyn y Dywarchen.


## Cornel Ddarllen


Dim sypreisus mawr o ran 10 uchaf Palas Print ar gyfer Awst, 2023. Mae cyfrolau'r Eisteddfod bob amser yn gwerthu'n dda. Mae pobl leol yn dda iawn am gefnogi a phrynu eu llyfrau 'steddfod yn y siopau, sy'n golygu hefyd bod pobl, wrth ddod i gasglu eu cyfansoddiadau neu gyfrol y Fedal neu'r Daniel Owen, yn aml yn gweld llyfrau eraill sydd wedi dod allan ers dechrau'r flwyddyn. Cawsom fis Awst prysur iawn, felly, ac wrth gwrs bydd cyfrolau'r Eisteddfod yn dal yn boblogaidd ym mis Medi, gan fod nifer yn mynd ar eu gwyliau'n syth ar ôl yr Eisteddfod. Felly, os nad ydych chi wedi cael eich copi o unrhyw un o'r cyfrolau buddugol neu'r cyfansoddiadau, mae 'na stoc o'r llyfrau ar gael acw...gan gynnwys copïau wedi'u llofnodi o *Gwynt y Dwyrain* gan Alun Ffred.

**10 Uchaf Awst 2023 Palas Print:**

1. *Gwynt y Dwyrain* - Alun Ffred
2. *Cyfansoddiadau* - gol. Dr Gwyn Lewis
3. *Hallt* - Meleri Wyn James
4. *Blue Book of Nebo* - Manon Steffan Ross
5. *Anfadwaith* - Llŷr Titus
6. *Mae'r Haul Wedi dod i Wrecsam* - Geraint Lovgreen
7. *Welsh Mysteries* - Martin Edwards
8. *Mymryn Rhyddid* - Gruffudd Owen
9. *Mae Bywyd Yma* - Guto Dafydd
10. *Pridd* - Llŷr Titus


*Eirian James*










## NANT PERIS

**Diolch**

Diolch yn fawr iawn i aelodau eglwysi Capel Coch, Nant Padarn a gweddill Gofalaeth Fro'r Llechen Las am eu dymuniadau da a'u rhoddion caredig ar achlysur f'ymddeoliad ddiwedd Awst. Mae wedi bod yn fraint i mi wasanaethu eglwysi'r Ofalaeth, yn cynnwys yr eglwys yn Rehoboth, Nant Peris hyd nes iddi ymuno â Chapel Coch ddiwedd 2018, ers i mi ddod atoch yn weinidog ddechrau Hydref 1988. Ers dechrau 2010, trwy drefniant arbennig rhwng yr Ofalaeth a Chapel Tanycoed, Llanrug rwyf wedi cael y fraint o wasanaethu'r eglwys yno hefyd.

Gwelsom lawer o newidiadau dros y 35 mlynedd ers hynny, yn cynnwys wrth gwrs gau capel Rehoboth. Ond trwy bob newid parhaodd addoliad a gwasanaeth yr eglwysi. Diolch o galon am bob cefnogaeth a chydweithrediad, ac yn bennaf oll diolch am eich cymdeithas yn yr Efengyl a'ch cwmni yn yr oedfaon o Sul i Sul. Pob bendith a dymuniad da i'r eglwysi i'r dyfodol dan arweiniad Duw. Diolch eto am bob caredigrwydd a haelioni. – John Pritchard

**Eglwys Sant Peris**
**Gwasanaethau mis Hydref**

Hydref 1af - 9:30AM - Boreol Weddi
Hydref 8fed - 9:30AM - Cymun Bendigaid, 4.00PM - Gwasanaeth Teulu
Hydref 15fed - 9:30AM - Boreol Weddi
Hydref 22ain - 9:30AM - Cymun Bendigaid
Hydref 29ain - 9:30AM - Cymun Bendigaid, 5.00PM - Gwasanaeth unedig Bro Eryri yn Eglwys Crist, Deiniolen

Hefyd cynhelir gwasanaeth un ai'r Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob dydd Mawrth am 11:00AM.










Dewch am dro i'r siop am wledd o lyfrau i'ch ysbrydoli



Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas
Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com



# Dal i redeg....

Mae'r mwyafrif o rasys mynydd gogledd Eryri yn dirwyn i ben, ond i'r rhai sy'n awchu am redeg ar y copaon dros fisoedd y gaeaf mae cyfle i chi gofrestru ar gyfer cyfres rasys mynydd a drefnir gan Glwb Rhedwyr Meirionnydd. Mae'r rasys hyn, fel y gallwch ddyfalu, i'w cynnal yn yr hen Sir Feirionnydd.

Yn ystod mis Awst cynhaliwyd Ras Maesgwm o Lanberis, a oedd yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain a hefyd yn Bencampwriaeth Siroedd Cymru. Fel y gellid disgwyl felly, roedd rhai o redwyr mynydd gorau Ynysoedd Prydain yn bresennol, a chafwyd tywydd eithaf ffafriol. 'Sir' Gogledd Cymru fu'n fuddugol ym Mhencampwriaeth Cymru.

Yn ystod mis Medi, cynhaliwyd Pencampwriaethau Rhedeg Mynydd Ieuenctid Gogledd Cymru ar Y Gogarth yn Llandudno. Gobeithio y gallwn adrodd am lwyddiannau lleol yn y rhifyn nesaf. Roedd y cystadlu'n agored i rai o dan 9 oed hyd dan 19 oed. Ym mis Medi hefyd, cynhaliwyd Ras Pedol Peris o Lanberis – yn cynnwys dwy ras – yr Hanner Pedol, o Lanberis i gopa'r Elidir ac ar hyd y grib i'r Glyder Fawr, gan orffen ym Mhen Gorffwysfa, a'r Bedol Llawn a oedd yn parhau o Ben Gorffwysfa ymlaen i'r Lliwedd, yr Wyddfa, Moel Cynghorion a diweddu yn Llanberis. I ddod ar Hydref 21ain, mae Marathon Eryri o Lanberis ac o amgylch yr Wyddfa.

Fel roedd yr adroddiad hwn yn cael ei anfon i'r Wasg, roedd Cylch Tân Môn yn gorffen, sef ras dri diwrnod ar Lwybr yr Arfordir o amgylch Môn. Roedd rhai rhedwyr lleol yn cystadlu.

Mae gan bentrefi mwyaf y fro eu rasys lleol – Ras Bethel a Ras Llanrug ar y ffordd; ras Llanberis i gopa'r Wyddfa. Deallaf y bydd Ras Deiniolen yn ôl yn 2024, ond beth am Ras Antur Waunfawr? Roedd hon yn ras boblogaidd ar un amser, ac fel ras Deiniolen, yn un heriol dros ben, gyda dringo serth o'r pentref i Fwlch y Groes. Beth amdani bobl Waunfawr?

.... Ac erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd cyfres rasys traws-gwlad Gogledd Cymru eisoes wedi cychwyn. Ydi, mae rhedwyr y fro yn .... dal i redeg.

## COLOFN CHWARAEON

# Tanio diddordeb

Yn ddiamheuol, bu cyfnod y Cofid yn niweidiol iawn i ddatblygiad y genhedlaeth iau gyda'i gyfyngiadau ar addysg a chwaraeon yn benodol. Daethom mewn sawl sefyllfa yn wylwyr yn hytrach na chymeryd rhan. Er nad yw'r cyflwr Cofid wedi diflannu, mae arwyddion pendant fod 2023 wedi ail-danio diddordeb yr ieuenctid.

Gobaith pob camp yw bod eu prif-gystadlaethau'n atyniadol ac yn denu brwdfrydedd yr ifanc i ymddiddori yn y gamp. Yma yng Nghymru, mae gobaith y bydd perfformiadau tîm rygbi Cymru – yn cynnwys sawl chwaraewr ifanc dwyieithog – yn denu ieuenctid i adrannau ieuenctid – bechgyn a merched – y clybiau rygbi lleol. Gwelsom eisoes gynnydd yn niferoedd a safon y timau merched. Pwy gredai, ychydig dymhorau'n ôl, y buasai 15 o ferched bellach dan gytundeb amser llawn gydag URC? A rhai ohonynt o'r Gogledd!

Ym myd y bêl-droed fe gofir Cwpan y Byd y Merched am amrywiol resymau: yn eu plith, merch o Fangor yn dyfarnu'r rownd gyn-derfynol a'r gêm am y trydydd safle, a safon y chwarae. Mae mwy a mwy o ferched yn chwarae pêl droed yng Nghymru erbyn hyn. Mae merch o Lanrug wedi sicrhau cytundeb llêd-broffesiynol gyda Wrecsam a Chlwb Merched Y Felinheli – ein tîm i ferched lleol – yn ennill Tlws y Gogledd ac yn cael dyrchafiad.

Ym myd criced y bu'r twf rhyfeddaf – a hynny dros fisoedd llêd-wlyb yr haf. A gafwyd cystal cyfres â chyfres 2023 Y Lludw? Y gemau prawf cystadleuol yn 2 gêm yr un, gydag un gêm wedi ei thorri yn ei blas gan y glaw. Chwaraewyr ieuanc yn amlygu eu hunain, yn enwedig fel batwyr. Elfennau ymosodol yn gysylltiedig â'r gemau undydd a'r T20 yn amlygu eu hunain ar lefel 'sedêt' gynt y gemau prawf. Daeth yn norm i sgorio 300+ o rediadau mewn diwrnod. Y cyffro'n cynyddu yn y gyfres undydd gyfredol rhwng Lloegr a Seland Newydd.

Y dystiolaeth yma yn y Gogledd yw bod y niferoedd sy'n mynychu adrannau ieuenctid ein clybiau wedi cynyddu'n sylweddol. Mae hyn sicr yn wir yng Nghlwb Criced Bangor. Fe benderfynodd y Pwyllgor bennu tymor 2023 yn dymor datblygiad. Gyda'r cyfleusterau gwych newydd – a maes rhyfeddol Tŷ Newydd – roedd elfennau atyniadol ar gael. Apwyntiwyd cyn-fowliwr cyflym Morgannwg, Will Owen, yn Gyd-lynydd Hyfforddi. Roedd pump o'r chwaraewyr eisioes yn Hyfforddwyr Cofrestredig. Roedd Bethan Williams yn ei lle fel Swyddog Gofal/Diogelwch/Llês a Chofrestru. Deuai 50+ o fechgyn a merched i'r nosweithiau hyfforddi. Awr a hanner ddifyr o ymroddiad. Gyda'r cyfleusterau bwyta ar gael roedd yn gyfle i'r rhieni gymdeithasu ar nos Wener tra oedd y plant mewn gofal .

Mae dau dîm yn cystadlu ar hyn o bryd yn y gynghrair leol sy'n cynnwys Bangor, Bethesda, Porthaethwy, Pwllheli, Llandudno, Mochdre, Bae Colwyn ac Abergele. Dyma glybiau rhanbarth Eryri i dimau dan 11 oed a dan 13 oed. Y gobaith yw ymestyn ym mhob clwb i dimau dan 15 oed hefyd. Tasg anodd oherwydd niferoedd sydd ar gael ac agosatrwydd y clybiau i'w gilydd.



Yn gynharach yn y tymor, rhoddwyd sylw i lwyddiant tîm Ysgol Llanrug yng Nghystadleuaeth Pêl-feddal Eryri a gynhaliwyd yn Nhŷ Newydd. Bu hyn yn gaffaeliad i Glwb Bangor. Erbyn hyn, mae pump o fechgyn o ardal Llanrug yn rhan o dimau ieuenctid Bangor, ac yn datblygu'n foddhaol. Mae tri o'r bechgyn – Tomos Hoban, Ilan Stokes ac Eban Roberts (yn rhes gefn y llun) – yn Ysgol Brynrefail. Mae'r ddau arall, Elis Stokes ac Iago Roberts, yn dal yn yr ysgol gynradd.

Mae'r tymor bellach ar ben, a chryn edrych ymlaen at y noson wobrwyo. Bydd y tymor nesaf yn cychwyn gyda 'rhwydi'r gaeaf' fis Chwefror nesaf, ac yna tymor llawn o hyfforddiant a gemau. Croeso cynnes i unrhyw unigolyn i ymaelodi. Fel ôl-nodyn, mae pedwar chwaraewr dan 15 oed yn chwarae'n rheolaidd i ail dîm a thîm Cynghrair y Sul y Clwb ar hyn o bryd. Ein gobaith fel Clwb yw cynnal y twf positif yma. Dewch draw i Dŷ Newydd – yn blant ac oedolion. **(R.Ll.J.)**



# Clybiau Cymru yn Ewrop

Mae dechrau Gorffennaf yn ddechrau ar dymor newydd i gefnogwr clybiau Cymru. Wrth i'r Timau sydd yn Ewrop chware yn Rowndiau Rhagbrofol UEFA.

Eleni roedd Cymru yn ôl gyda 4 tîm yn Ewrop ar ôl bod gyda thri yn unig y tymor diwethaf.

Pencampwyr Cymru, Y Seintiau Newydd, oedd yn chwarae yng Nghynghrair y Pencampwyr. Er bod y tîm o Groesoswallt wedi eu dethol yn y '*draw*' roedd gêm galed yn eu hwynebu gan chware Pencampwyr yr Allsvenskan yn Sweden BK Haecken yn y Rownd Ragbrofol Gyntaf.

Yn y cymal cyntaf colli 3-1 ddaru'r Seintiau draw yn Gothenburg. Aeth y Seintiau ar ei hôl hi o 2-0 cyn i Declan McManus rwydo i TNS. Ond sgorio eto cyn yr hanner ddaru Haecken a Thîm o Sweden 3-1 ar y blaen hanner amser. Roedd yr ail hanner yn un ochrog. Ond roedd y Seintiau efo'i golwr Connor Roberts, wrth arbed dro ar ôl tro, a Haecken yn methu sgorio. 3-1 ar ôl y cymal cyntaf.

Yn yr ail gymal yn Neuadd y Parc, colli 2-0 ddaru'r tîm cartref, wrth i TNS golli o 5-1 ar gyfanswm goliau a disgyn lawr i Gyngres Ewropa.

Taith i Lwcsembwrg oedd hi i Bencampwyr Cymru yn Ail Rownd Ragbrofol Cyngres Ewropa wrth wynebu Swift Hesperange.

Gêm gyfartal 1-1 oedd y cymal cyntaf ar Neuadd y Parc. Unwaith eto'r Seintiau yn diolch i'r golwr Connor Roberts wrth iddo arbed cic o'r smotyn gan ymosodwr Swift Dominik, Stolz. Cyn i Rory Holden unioni'r sgôr i TNS chwarter awr cyn y diwedd.

Yn yr ail gymal yn Lwcsembwrg colli oedd ei hanes o 3-2. Er ildio gôl fuan iawn rhwydodd Declan McManus o'r smotyn. Ond dwy gôl o fewn munudau i'w gilydd wedi'r awr i Swift Hesperange yn agor y bwlch. Er i McManus rwydo o'r smotyn eto ni lwyddodd y Seintiau i ganfod y rhwyd am y 3ydd tro a'r Seintiau yn colli 4-3 ar gyfanswm goliau a thaith Pencampwyr Cymru yn Ewrop drosodd.

Yn y Gyngres Ewropa roedd y 3 tîm arall o Gymru yn chwarae.

Roedd Penybont yn chware yn Ewrop am y tro cyntaf erioed. Santa Coloma o Andorra oedd ei gwrthwynebwyr. Roedd y cymal cartref yn cael ei chware ar y Maes Rygbi yn y dref sef Cae Bragdy, gan nad oedd Stadiwm Gwydr SDM yn addas gyda gofynion UEFA. Er mai tîm o Andorra oeddan nhw, roedd ambell i chwaraewr Rhyngwladol Andorra yn chwarae i Santa Coloma.

Santa Coloma aeth ar y blaen wedi hanner awr yn dilyn cic rydd. Ond Chris Venables yn rhwydo i'w glwb newydd i unioni'r sgôr yn yr ail hanner 1-1.

Taith i Andorra ar gyfer yr ail gymal a'r gêm yn gyfartal. Perfformiad da gan dîm Rhys Griffiths a gêm ddi-sgôr i Benybont.

Ond yn ystod yr amser ychwanegol siom, wrth i Chris Venables weld cerdyn coch am ail gerdyn melyn. 2 funud wedi'r cerdyn coch ildiodd Penybont cyn i Santa Coloma sgorio eto cyn y diwedd. Penybont yn colli 2-0 yn yr amser ychwanegol a'u taith gyntaf yn Ewrop drosodd ar ôl colli 3-1 ar gyfanswm goliau.

Taith i Wlad yr Ia oedd hi i Gei Connah gan chware yn erbyn KA Akureyri yn y cymal cyntaf colli 2-0 yng Ngwlad yr Iâ ddaru'r tîm o Lannau Dyfrdwy ildio dwy gôl yn yr ail hanner.

Yn Neuadd y Parc, cartref Y Seintiau Newydd oedd yr ail gymal. Yn anffodus i Gei Connah yr un oedd ei hanes, colli o 2-0 ac KA Akureyri yn ennill 4-0 dros y ddau gymal.

Y 4ydd clwb yn cynrychioli Cymru oedd Hwlffordd, gan ddychwelyd i Ewrop am y tro cyntaf ers 2004. Taith i Ogledd Macedonia i wynebu KF Shkendija oedd hi i'r Adar Gleision. Colli o 1-0 oedd hi yn y cymal cyntaf yn Skopje gyda Hwlffordd yn ildio yn fuan yn yr ail hanner.

Taith i Stadiwm Dinas Caerdydd oedd yr ail gymal, gan fod cae Hwlffordd, Dôl y Bont, ddim yn cydymffurfio â gofynion UEFA. Bu cyfleon i Shkendija ond y tîm o Ogledd Macedonia yn methu â manteisio. Munud cyn y diwedd daeth y gôl holl bwysig i Hwlffordd, wrth i Lee Jenkins rwydo! Y ddau dîm yn gyfartal, wedi dau gymal ac amser ychwanegol i'w chware. Doedd dim goliau yn yr amser ychwanegol ac aeth hi i giciau o'r smotyn. Golwr Hwlffordd Zac Jones yr arwr wrth iddo arbed y gic allweddol a Hwlffordd yn curo 3-2 ar giciau o'r smotyn. Sioc gan y tîm o'r Gorllewin, wrth iddynt ennill yn erbyn y tîm proffesiynol o Ogledd Macedonia.

Taith i Ynysoedd Faroe oedd hi yn yr 2il Rownd Ragbrofol gan wynebu B36 Torshavn, colli 2-1 ar yr Ynysoedd oedd hanes yr Adar Gleision. Ond gôl hwyr Martell Taylor- Crossdale yn rhoi gobaith yn ôl i'r ail gymal yng Nghaerdydd. Yn ôl i Stadiwm Dinas Caerdydd i Hwlffordd felly. Gôl wedi 66 munud i Ben Fawcett yn dod a'r gêm dros y ddau gymal yn gyfartal 2-2. Ac am yr ail gêm Ewropeaidd yn olynol amser ychwanegol i Hwlffordd.

10 munud i mewn i amser ychwanegol a chic o'r smotyn dadleuol i'r tîm o Ynysoedd Faroe a Jann Benjaminsen yn rhwydo. Yn anffodus i Hwlffordd honno oedd y gwahaniaeth a B36 Torshavn yn ennill 3-2 ar gyfanswm goliau. Felly Taith Clybiau Cymru drosodd yn Ewrop am flwyddyn arall.

Oherwydd canlyniadau clybiau Cymru dros y blynyddoedd diwethaf yn Ewrop yn cymharu â chlybiau o wledydd eraill. Bydd Cymru yn colli un lle yn Ewrop eto ar gyfer 2025/26 ac yn ôl i 3 tîm fel y tymor diwethaf. Bechod i weld y Gynghrair yn colli 1 lle. Ond bydd rhaid i'r Gymdeithas edrych ar newid rhywbeth yn y Gynghrair i osgoi hyn rhag digwydd ymhen blynyddoedd.

Ydi hi yn amser am newidiadau i'r Cymru Premier?

**Elgan Rhys Jones**

WAVELLS
ESTD 1973
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr wyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574




ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >